

**Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol  
(Dirybudd)  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r  
Fro, Ysbyty Athrofaol Cymru, B6  
Trawma ac Orthopedeg**

**22 a 23 Gorffennaf 2014**

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**Ebost:** [agic@wales.gsi.gov.uk](mailto:agic@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

|    |  |    |
|----|--|----|
| 1. | Cyflwyniad.....                                    | 2  |
| 2. | Methodoleg .....                                   | 2  |
| 3. | Cyd-destun.....                                    | 3  |
| 4. | Crynodeb .....                                     | 4  |
| 5. | Canfyddiadau.....                                  | 7  |
|    | Ansawdd Profiad y Claf .....                       | 7  |
|    | Cyflenwi Hanfodion Gofal .....                     | 9  |
|    | Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ..... | 22 |
|    | Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol .....     | 25 |
| 6. | Y Camau Nesaf.....                                 | 31 |

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad urddas a gofal hanfodol yn ward B6 trawma ac Orthopedeg Ysbyty Athrofaol Cymru, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ddirybydd ar yr 22<sup>ain</sup> a'r 23<sup>ain</sup> o Orffennaf 2014.

Ystyriodd ein harolygiad y materion canlynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi hanfodion gofal
- Ansawdd staffio, rheoli ac arweinyddiaeth
- Cyflenwi gwasanaeth diogel ac effeithiol

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau urddas a gofal hanfodol AGIC yn adolygu'r ffordd mae urddas cleifion yn cael ei gynnal mewn ward/uned/adran ysbyty a'r gofal nyrsio hanfodol, sylfaenol y mae'r cleifion yn ei dderbyn.

Rydym yn adolygu dogfennau a gwybodaeth wrth nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau, a chyfweliadau â staff
- Trafodaeth ag uwch reolwyr y bwrdd iechyd
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisïau a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Arsylwadau cyffredinol o amgylchedd y gofal a'r arferion gofal

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau'r gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Gall yr arolygiadau hyn hefyd dynnu sylw at faterion ehangach ynglŷn ag ansawdd a diogelwch urddas a gofal hanfodol.

### 3. Cyd-destun

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw un o sefydliadau Gwasanaeth Iechyd Gwlad (GIG) mwyaf y Deyrnas Unedig. Mae'n darparu gwasanaethau iechyd o ddydd i ddydd i boblogaeth o thua 472,400 o bobl sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg sydd angen triniaeth ysbyty a gofal iechyd meddwl brys, ac wedi'u trefnu. Mae hefyd yn darparu gofal yng nghartrefi pobl ac mewn clinigau cymunedol.

Mae'r bwrdd iechyd hefyd yn gyfrifol am y ddarpariaeth o wasanaethau gofal sylfaenol y GIG yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, gan gynnwys meddygon teulu, fferyllwyr cymunedol, ac optometryddion. Hefyd, mae'n gwasanaethu poblogaeth ehangach ar draws de a chanolbarth Cymru ar gyfer arbenigeddau fel gofal dwys pediatrig, gwasanaethau arbenigol plant, gwasanaethau arenol, gwasanaethau'r galon, niwroleg, trawsblannu mêr esgyrn a geneteg feddygol.

Mae Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn cynnwys naw ysbyty a dwy ar bymtheg o ganolfannau iechyd, yn cynnwys Ysbyty Athrofaol Cymru (UHW), sy'n ysbyty mawr â 1,000 o welyau sydd yn ardal Y Mynydd Bychan o Gaerdydd. Mae Ysbyty Athrofaol Cymru yn ysbyty addysgu yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd ac fe'i hagorwyd yn swyddogol yn 1971. Dyma'r trydydd Ysbyty Athrofaol mwyaf yn y Deyrnas Unedig a'r ysbyty mwyaf yng Nghymru.

Mae Ward B6 yn ward 38 o welyau sy'n ymdrin â chleifion sydd wedi torri clun a chleifion trawma cyffredinol. Mae'n cyflenwi'i gofal trwy fodel rhannu'r gofal â'r ymgynghorydd orthogeriatrig arweiniol ochr yn ochr â mewnbwn trawma arbenigol gan ymgynghorwyr trawma ac Orthopedeg. Sefydlwyd y ward ym mis Tachwedd 2011 wedi ad-drefniant sylweddol o'r gwelyau trawma ac Orthopedeg.

Yn weithredol, mae B6 wedi'i threfnu fel dau fan gwahanol â 19 o welyau sydd â thimau nyrsio dynodedig o fewn sefydliad y wardiau. Mae gan bob un o'r manau 19 gwely hwylusydd llwybr orthogeriatrig<sup>1</sup>.

---

<sup>1</sup> Hwylusydd llwybr orthogeriatrig yw aelod penodedig o staff sy'n mynd o amgylch wardiau i helpu i sicrhau cydgysylltiad effeithiol o ofal a mynediad i therapïau arbenigol yn unol ag arferion da cydnabyddedig.

## 4. Crynodeb

Gwnaethom nifer o ganfyddiadau yn gysylltiedig â chyflenwi hanfodion gofal, ansawdd y staffio, rheoli ac arweinyddiaeth, ac yn gysylltiedig â chyflenwi gwasanaeth diogel ac effeithiol y gwnaethom ofyn am sicrwydd ar unwaith amdano oddi wrth y bwrdd iechyd yn dilyn yr arolygiad.

Mae'r bwrdd iechyd wedi darparu ymateb boddhaol i AGIC sy'n rhoi manylion ei weithredoedd, swyddogion cyfrifol ac amserlenni rhesymol, a gellir canfod hyn yn Atodiad A.

Yn gyffredinol, canfuom fod cleifion yn teimlo bod ansawdd eu profiad yn bositif tra eu bod ar y ward hon. Pan holwyd am eu gofal, roedd cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon â'r ffordd roedd gofal yn cael ei ddarparu ac roeddynt yn teimlo y gwrandewid arnynt a'u bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynglŷn â'u gofal.

Gwnaethom arsylwi nifer o ddigwyddiadau o ryngweithio positif rhwng staff a chleifion yn ystod yr arolygiad. Roedd staff yn ymwybodol o'r angen i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion i gyd. Fodd bynnag, ar nifer fechan o adegau, ni wnaethom arsylwi hyn. Byddai cleifion yn elwa petai'r staff yn rhoi mwy o sylw i gynnal a diogelu preifatrwydd ac urddas pobl bob amser.

Roedd ein canfyddiadau yn gysylltiedig â hanfodion y gofal fel a ganlyn:

- Roedd cleifion a pherthnasau y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo bod staff yn cyfathrebu â nhw'n effeithiol ac mewn ffordd sy'n sensitif i'w hanghenion. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym eu bod wedi cael yr opsiwn o gyfathrebu mewn iaith o'u dewis. Gwnaethom arsylwi'r ymdrechion a wnaed gan staff i helpu cleifion sydd efallai'n cael anawsterau â'u cof cyfnod byr. Cyflawnwyd hyn trwy ddefnyddio arwyddion darluniadol mawrion ar ddrysau a thâp lliw ar handlenni (i'w gwneud yn fwy gweladwy).
- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn hapus â'r ffordd roedd y staff yn ymwneud ac yn siarad â nhw. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom arsylwi nifer fechan o adegau pan oedd llenni erchwyn gwely cleifion wedi'u llwyr gau cyn derbyn gofal neu driniaeth.
- Canfuom fod cleifion yn cael eu hannog yn rheolaidd i adennill cymaint o annibyniaeth ag y gallai'u cyflwr meddygol ei ganiatáu. Mae yna le i wella'r ystafell ddydd er defnydd cleifion a'u perthnasau.
- Gwnaethom arsylwi fod staff yn rhagweithiol wrth weithio tuag at wella cysylltiadau â chleifion trwy fentrau fel 'Y fi yw hwn'. Gwnaeth cleifion a siaradodd â ni ddweud wrthym eu bod yn gallu derbyn

ymwelwyr ar adegau heblaw'r amseroedd ymweld â'r wardiau, â chytundeb prif nyrs y ward o flaen llaw.

- Ni wnaeth cleifion y gwnaethom siarad â nhw adrodd am unrhyw bryderon neu broblemau yn ymwneud â gorffwys a chwsg, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn gallu gorffwys trwy gydol y dydd neu'r nos. Gwnaeth staff y gwnaethom siarad â nhw adrodd eu bod ar adegau wedi profi prinder llieiniau a all arwain at anhawster mewn darparu gobennydd ychwanegol er dibenion bod yn gyfforddus.
- Gwnaeth pob claf y gwnaethom siarad â nhw ddweud wrthym fod eu poen yn cael ei reoli'n iawn a'u bod yn gyfforddus. Canfu ein hadolygiad o sampl o ddogfennau cleifion fod rhai cofnodion yn brin o dystiolaeth o'r defnydd cyson o sgorio poen i hysbysu'n gyflawn y gwaith o asesu, rheoli ac adolygu effeithiolrwydd moddion lleddfu poen a oedd wedi'u gweini.
- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn derbyn cymorth â'u hylendid a'u hymddangosiad personol yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau.
- Canfuom fod anghenion maeth cleifion yn cael eu diwallu, ac roedd yna dystiolaeth i ategu hyn wedi'i chofnodi yn nogfennau'r cleifion. Gwnaethom arsylwi staff yn sicrhau bod yr holl gleifion yn derbyn cymorth ac anogaeth briodol i fwyta ac i yfed. Fodd bynnag, canfuom fod cymeriant hylifau ond yn cael ei gofnodi'n anghyson yng nghofnodion cleifion ac na chynigiwyd y cyfle i gleifion olchi'u dwylo neu gael clytiau dwylo cyn prydau bwyd.
- Nid oedd staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o weithdrefnau ar gyfer iechyd y geg, ac roedd cleifion oedd yn abl i wneud yn cael eu cymorth i lanhau'u dannedd a'u dannedd gosod yn annibynnol. Fodd bynnag, canfuom fod cofnodion rhai cleifion yn brin o dystiolaeth i gadarnhau bod gofal y geg wedi'i ddarparu, ac ni allem gael ein sicrhau bod holl anghenion gofal iechyd y geg cleifion yn cael eu diwallu bob amser.
- Roedd cleifion yn cael eu cymorth i fynd i'r toiled ac roeddynt yn gallu defnyddio'u dewis eu hunain o ddull mynd i'r toiled. Fodd bynnag, mae ar staff angen sicrhau'n gyson bod urddas cleifion yn cael ei gynnal yn ystod gofal personol. Byddai cleifion yn elwa o werthuso mwy rheolaidd ar ymataliaeth i sicrhau bod gofal priodol yn cael ei ddarparu.

- Canfuom dystiolaeth bod staff yn defnyddio offer asesu man pwysu i gynorthwyo i nodi'r cleifion hynny a all fod mewn perygl o fagu niwed pwysu.

Drwodd a thro, gwnaethom arsylwi bod y ward yn amgylchedd neilltuol o heriol oherwydd y maint a'r pellter maith rhwng gorsafoedd y nyrsys a mannau bae'r cleifion. Byddai cleifion yn elwa o welededd uwch o ran staff ym mannau bae'r wardiau. Byddai tîm y wardiau'n elwa o gyfathrebu mwy agored a chydgysylltiedig rhwng gweithwyr cymorth gofal iechyd a nyrsys cofrestredig i sicrhau bod cleifion, y gall eu cyflyrau fod wedi newid, yn cael eu nodi a'u hasesu ar y cyfle cyntaf.

Gwnaethom arsylwi bod y ward ar adegau'n anhrefnus a bod yna ddiffyg trefnu wedi'i ffocysu rhwng y staff. Cymhlethwyd hyn gan broblemau â rhai dulliau cyfathrebu, megis y byrddau gwybodaeth i gleifion, y gwnaethom ganfod nad oeddynt yn cael eu cydgysylltu'n effeithiol nac yn cael eu diweddarau â gwybodaeth berthnasol i gynorthwyo staff. Cawsai natur anhrefnus y ward, fel yr enghreifftir uchod, effaith negyddol ar gwblhau'r dystiolaeth ddogfennol o sut roedd anghenion gofal unigol cleifion wedi'u diwallu.



## 5. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Yn gyffredinol, canfuom fod profiad cleifion o'r gwasanaeth, tra eu bod ar y ward hon, yn bositif. Pan ofynnwyd iddynt am eu gofal, dywedodd cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn fodlon â'r ffordd roedd eu gofal yn cael ei ddarparu; gwrandewid arnynt a chaent eu cynnwys mewn penderfyniadau ynglŷn â'u gofal.**

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom siarad â nifer o gleifion a pherthnasau a gwnaethom roi cyfle iddynt gwblhau holiadur adborth i gleifion, perthnasau a gofalwyr. Gwnaethom hyn i gael eu barn am y gwasanaeth a ddarparwyd yn Ward B6.

Cafodd pedwar holiadur a gwblhawyd gan gleifion a pherthnasau eu dychwelyd atom ar ôl yr arolygiad. Roedd pob un o ymatebion yr holiaduron hynny'n dynodi bod y bobl yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno' bod y ward yn lân ac yn daclus a bod staff yn gwrtais wrthynt, eu cyfeillion a'u teulu.

Gwnaeth pob claf a ymatebodd i'r holiadur adrodd eu bod yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno' bod staff ar Ward B6 yn garedig wrthynt ac yn sensitif iddynt wrth gynnal gofal a thriniaeth. Gwnaethant hefyd ddynodi bod ganddynt ddewis o ran diwallu'u hanghenion toiled a / neu ymataliaeth a bod staff at ei gilydd yn brydlon wrth ymateb i'w galwadau am gymorth.

Cawsom sgysiau â chleifion a ddisgrifiodd sut roeddynt wedi cael eu cynnwys yn y dewisiadau o'u gofal. Gwnaethant hefyd ddarparu sylwadau positif inni am agweddau ac ymddygiad y staff. Roedd cleifion yn ganmoliaethus iawn o'r staff a gwnaethant ddweud y gelwid nhw wrth eu dewis enw.

Roedd cleifion yn ganmoliaethus iawn o'r ffordd brydlon a llawn cydymdeimlad roedd staff i'w gweld yn gofalu amdanynt, yn enwedig y rheiny oedd yn ymddangos eu bod mewn trallod ac yn galw am gymorth. Gwnaethom hefyd arsylwi staff yn siarad mewn modd priodol, gan gynorthwyo claf i eistedd yn nes at orsaf y nyrsys er mwyn gallu darparu arsylwad a chefnogaeth oedd yn nes atynt.

Gwnaeth sgysiau â nifer o gleifion amlygu nad oeddynt yn ymwybodol o'r broses pryderon a chwynion ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro na sut i wneud cŵyn. Fodd bynnag, dynododd y rhan fwyaf o gleifion eu bod yn teimlo'u bod yn gallu trafod unrhyw bryderon roedd ganddynt â'r uwch-staff ar y ward, ac os na cheid canlyniad boddhaol, roeddynt yn teimlo'u bod yn gallu gwneud cŵyn mwy ffurfiol.

Pan ofynnwyd iddynt am eu gofal, roedd cleifion yn fodlon drwodd a thro â'r ffordd roedd eu gofal yn cael ei ddarparu. Teimlai cleifion a pherthnasau y gwrandewid arnynt gan dîm y ward. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym eu bod yn teimlo'u bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynglŷn â chynllunio'u gofal a'u dewisiadau o driniaethau, a themlent eu bod yn deall y gofal a'r driniaeth a ddarperid.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom arsylwi bod y staff yn gwisgo yn unol â Chod Gwisg Cymru Gyfan y GIG<sup>2</sup>. Fodd bynnag, nid oedd rhai staff yn gwisgo bathodynau â'u henwau arnynt fel dull eglur o adnabod i gynorthwyo cleifion i nodi'u rôl yn nhîm y ward.

### ***Argymhelliad***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cadw at God Gwisg Cymru Gyfan y GIG, egwyddor 5, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i bob staff wisgo dull adnabod bob amser sy'n eglur weladwy.***

---

<sup>2</sup> Mae Cod Gwisg Cymru Gyfan y GIG yn enwi'r egwyddorion y mae'n rhaid i holl staff y GIG gadw atynt, ac mae'n amlygu disgwyliadau penodol i bob aelod o staff sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chyflenwi gwasanaethau clinigol. Mae'r cod gwisg yn gweddu'n gyfartal ledled staff clinigol ac anghlinigol sy'n gweithio yn GIG Cymru.

## **Cyflenwi Hanfodion Gofal**

**Gwnaethom arsylwi nifer o ddigwyddiadau o ryngweithio positif rhwng staff a chleifion yn ystod yr arolygiad. Roedd staff yn ymwybodol o'r angen i ddiogelu preifatrwydd ac urddas yr holl gleifion. Fodd bynnag, ar nifer fechan o adegau, ni wnaethom arsylwi hyn. Byddai cleifion yn elwa o gael y staff yn rhoi mwy o sylw i gynnal a diogelu preifatrwydd ac urddas pobl bob amser.**

**Gwnaethom nifer o ganfyddiadau yn gysylltiedig â chyflenwi hanfodion gofal y gwnaethom ofyn am sicrwydd ar unwaith amdano gan y bwrdd iechyd. Mae'r bwrdd iechyd wedi darparu ymateb boddhaol i AGIC yn rhoi manylion eu gweithredoedd, a gellir ei ganfod yn Atodiad A.**

### **Cyfathrebu a Gwybodaeth**

*Rhaid i bobl dderbyn gwybodaeth lawn am eu gofal mewn iaith a dull sy'n sensitif i'w hanghenion.*

**Roedd cleifion a pherthnasau y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo bod staff yn cyfathrebu â nhw'n effeithiol ac mewn modd sy'n sensitif i'w hanghenion. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym eu bod wedi cael yr opsiwn i gyfathrebu mewn iaith o'u dewis. Gwnaethom arsylwi'r ymdrechion a wnaed gan staff i helpu cleifion a all ei chael hi'n anodd â'u cof cyfnod byr. Cyflawnwyd hyn trwy ddefnyddio arwyddion darluniadol mawrion ar ddrysau a thâp lliw ar handlenni (i'w gwneud yn fwy gweladwy).**

Gwnaethom arsylwi amrywiol gamau a gymerwyd gan staff ar y ward i helpu cleifion a all ei chael hi'n anodd â'u cof cyfnod byr neu gleifion nad oes ganddynt ddigon o ddealltwriaeth o gynllun y wardiau. Roedd y cyfryw gamau'n cynnwys arwyddion darluniadol mawrion i helpu cleifion i amgyffred cyfleusterau'r toiled a'r ystafell ymolchi a'r defnydd o dâp lliw llachar ar handlenni drysau, fel eu bod yn haws eu gweld. Roedd hi'n amlwg bod staff yn ceisio cyfathrebu mor effeithiol â phosibl â chleifion.

Canfuom nad oedd gan staff y ward fodd o gael at system dolen glyw<sup>3</sup> ar gyfer cleifion oedd ag anawsterau'r clyw ac nad oedd yna arwyddion na thafleuni dwyieithog yn ystafell ddydd y cleifion. Gall hyn olygu nad oedd rhai agweddu o anghenion y cleifion yn cael eu diwallu.

### ***Argymhelliad***

#### ***Cynghorir y bwrdd iechyd i adolygu argaeledd cymhorthion cyfathrebu addas ar y ward.***

Canfuom fod yn glaciau mawrion wedi'u lleoli yn holl fannau'r wardiau i helpu i gyfeiriadu pobl, ond roedd rhai o'r claciau'n dangos yr amser anghywir o'r dydd, a allai ddrysu cleifion.

### ***Argymhelliad***

#### ***Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau bod gwybodaeth a ddarperir i gleifion ar y ward yn gywir.***

Mewn un o'r naw o fannau'r ward gwelyau, roeddem yn gallu clywed staff yn siarad â chlaf, mewn lleisiau oedd yn bendant yn glywadwy, wrth weini gofal personol y tu ôl i len oedd wedi'i chau. Gwnaethom hefyd ganfod staff eraill yn siarad yn uchel â chleifion oedd yn eu gwely neu mewn cadair wrth erchwyn y gwely. Gellid clywed y sgysiau hynny o ben arall yr ystafell ac o'r coridor. Golygai hyn y gall sgysiau â'r claf ddigwydd cael eu clywed gan gleifion eraill, ymwelwyr neu staff. Yn benben â hynny, gwnaethom arsylwi rhai cleifion a oedd yn ei chael hi'n anodd clywed yn eglur y staff nyrsio'n siarad â nhw gan eu bod gryn bellter i ffwrdd.

### ***Argymhelliad***

#### ***Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau y cyfathreber â chleifion mewn ffordd sydd yn eu galluogi i dderbyn ac i ymateb i'r wybodaeth a roddir.***

Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn gallu siarad yn yr iaith o'u dewis ac y byddai staff yn ceisio bodloni'u dymuniadau a'u dewis yn hyn o beth. Gwnaethom hefyd adolygu sampl o gofnodion cleifion a ddynodai fod iaith ddewisol cleifion yn cael ei chofnodi wrth iddynt gael eu derbyn i'r ward. Fodd bynnag, dangosodd trafodaethau â rhai staff nad oedd ganddynt ddigon o

---

<sup>3</sup>Mae Dolen Sain Seinamledd (AFIL), y cyfeirir ati ond fel **Dolen Glyw**, yn system wrando gynorthwyol sy'n darparu modd o gael at gyfleusterau i'r rheiny sydd â nam ar y clyw.

wybodaeth am y gwasanaeth Llinell Iaith<sup>4</sup> sydd ar gael i'r bwrdd iechyd. Dywedodd staff wrthym eu bod wedi dibynnu ar bresenoldeb a chefnogaeth aelodau teulu cleifion oedd yn medru cyfieithu gwybodaeth / sgysiau i helpu'u perthynas.

### ***Argymhelliad***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn derbyn gwybodaeth lawn am eu gofal mewn iaith a modd sy'n sensitif i'w hanghenion.***

### **Parchu Pobl**

*Rhaid amddiffyn hawliau dynol sylfaenol i urddas, preifatrwydd a gallu gwneud dewisiadau gwybodus bob amser, a rhaid i'r gofal a ddarperir roi ystyriaeth i anghenion, galluoedd a dymuniadau'r unigolyn.*

**Dyweddodd cleifion wrthym eu bod yn hapus â'r ffordd roedd staff yn ymwneud â nhw ac yn siarad â nhw. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom arsylwi nifer fechan o adegau pan gafodd cynnal urddas claf ei danseilio gan staff nad oeddynt yn sicrhau bod llenni erchwyn gwelyau cleifion wedi'u cau yn llwyr cyn ymgymryd â gofal neu driniaeth.**

Dyweddodd cleifion wrthym eu bod yn hapus â'r ffordd roedd staff yn ymwneud â nhw ac yn siarad â nhw. Roeddynt yn ganmoliaethus o'r staff ar y ward, a gwnaethant ddweud wrthym fod staff yn ofalgar ac yn eu cyfarch wrth eu dewis enw. Gwnaethom arsylwi nifer fechan o achosion lle na chyfeiriwyd at gleifion wrth eu dewis enw a chyfeiriwyd atynt fel 'cariad / love'. Fodd bynnag, ni wnaeth yr un o'r cleifion a siaradodd â ni fynegi anfodlonrwydd â hyn.

Gwnaethom arsylwi un achos o staff ar y ward yn trafod cyflwr claf penodol wrth ymyl mynedfa'r ward, a gellid clywed y sgwrs o fewn y ward ac yn y coridor. Er ein bod yn deall bod ar staff nyrsio angen trafod cleifion, dylai staff fod yn ystyriol o ble mae'r cyfryw sgysiau'n digwydd a chynnal cyfrinachedd cleifion trwy sicrhau na ellir digwydd clywed sgysiau am gleifion gan eraill.

---

<sup>4</sup>Mae'r Llinell Iaith yn wasanaeth sy'n cynnig lladmeryddion proffesiynol i helpu i hwyluso ymgynghoriadau â chleifion.

### **Argymhelliad**

***Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau bod cyfrinachedd a phreifatrwydd cleifion yn cael eu parchu cyn belled â phosibl, yn enwedig mewn wardiau ysbytai, manau cyhoeddus a derbynfeydd.***

***Gwnaethom arsylwi nifer fechan o achosion lle nad oedd llenni erchwyn y gwely wedi'u cadw ynghau yn llwyr wrth i ofal personol a thriniaeth gael eu rhoi. Roedd hi'n amlwg bod staff yn ei chanfod hi'n anodd iawn cadw llenni ynghau ar adegau pan oedd arnynt angen defnyddio neu symud cyfarpar wrth erchwyn gwelyau cleifion oherwydd bod y lle oedd ar gael iddynt symud yn gyfyng.***

### **Argymhelliad**

***Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau bod yn rhaid diogelu urddas a phreifatrwydd cleifion bob amser.***

### **Hyrwyddo Annibyniaeth**

*Rhaid i'r gofal a ddarperir barchu dewisiadau'r person wrth wneud y mwyaf o'u gallu a'u dymuniad i ofalu am eu hunain.*

**Canfuom fod cleifion yn cael eu hannog yn rheolaidd i adennill cymaint o annibyniaeth ag y gall eu cyflwr meddygol ei ganiatáu. Mae yna le i wella'r ystafell ddydd er defnydd cleifion a'u perthnasau.**

Gwnaethom arsylwi rhai cleifion yn eistedd mewn cadeiriau wrth ochr eu gwely yn ogystal â bod yn eu gwelyau. Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn cael eu hannog gan staff i gynnal eu hannibyniaeth ac y gallent gerdded o amgylch y ward neu eistedd ar erchwyn eu gwely, yn ôl eu dewis personol nhw'u hunain.

Canfuom fod cleifion a'u perthnasoedd yn cael defnyddio ystafell ddydd oedd â theledu a nifer o lyfrau. Fodd bynnag, canfuom hefyd mai prin oedd y cyfle am weithgareddau cymdeithasol neu hamdden i gleifion.

Canfuom fod yr ystafell ddydd yn anghroesawgar ac roedd y carped wedi'i faeddu. Gwnaethom hefyd arsylwi ei bod yn cael ei defnyddio er dibenion heblaw fel cyfleuster i gleifion a pherthnasau. Roedd yna lungopiwr mawr yn yr ystafell ac fe'i defnyddid gan staff ar amrywiol amseroedd o'r dydd. Yn ychwanegol, roedd yr ystafell ddydd yn cael ei defnyddio gan staff nyrsio i gwblhau'u diweddariadau ysgrifenedig o gofnodion cleifion ac i gymryd seibiannau o'u cyfrifoldebau'n gofalu.

## **Argymhelliad**

### ***Cynghorir y bwrdd iechyd i ystyried y defnydd o'r ystafell ddydd gyfredol i gleifion a bod yr ystafell yn amgylchedd addas i gleifion.***

Gwnaethom arsylwi bod elfennau o'r 'Cynllun Glöyn Byw'<sup>5</sup> ar waith. Gellir gweld y logo glöyn byw ar erchwyn gwelyau rhai cleifion. Roedd hyn yn dynodi a oedd ar y claf nam ar y cof sy'n gysylltiedig â dementia yr oeddynt yn dymuno i'r staff fod yn ymwybodol ohono. Canfuom fod yna daflen gofalwyr y cynllun glöyn byw mewn cofnodion rhai cleifion oedd yn cynnwys gwybodaeth fuddiol am y claf a'i hoff ddewisiadau, fyddai'n lleihau unrhyw drallod posib' yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty. Gwnaeth staff a siaradodd â ni gadarnhau bod y cynllun ond newydd gael ei gyflwyno i'r ward a'i fod eto i'w weithredu'n llawn ac yn gyson. Fodd bynnag, canfuom fod y staff wedi ymrwymo i ddyysgu'n llwyr am y cynllun ac i wneud cynnydd tuag at y defnydd llawn a fwriadwyd ar ei gyfer.

## **Perthnasau**

*Rhaid annog pobl i gadw eu cysylltiadau â'u teulu a'u cyfeillion a datblygu perthynas ag eraill yn unol â'u dymuniadau.*

**Gwnaethom arsylwi bod staff yn rhagweithiol wrth weithio tuag at wella perthnasoedd â chleifion trwy fentrau megis 'Y Fi yw Hwn'<sup>6</sup>. Dywedodd cleifion a siaradodd â ni eu bod yn gallu derbyn ymwelwyr ar adegau heblaw amseroedd ymweld y ward, â chytundeb prif nyrs y ward ymlaen llaw.**

Roedd gan y ward oriau ymweld strwythuredig, er y cawsom ein hysbysu gan staff bod y trefniadau yn hyblyg fel y gellid ystyried amgylchiadau unigol cleifion a/neu berthnasau.

Canfuom y gwneir ymdrechion i alluogi cleifion oedd yn cael anawsterau â chyfathrebu i wneud eu hoff ddewisiadau'n hysbys i staff. Yn benodol, roedd tîm y ward yn ddiweddar wedi mabwysiadu'r defnydd o'r fenter 'Y Fi yw Hwn'.

---

<sup>5</sup>Mae'r Cynllun Glöyn Byw <http://butterflyscheme.org.uk/> yn caniatáu i bobl yr effeithir yn barhaol ar eu cof gan ddementia wneud hyn yn eglur wrth staff yr ysbyty ac mae'n darparu strategaeth syml, ymarferol i staff ar gyfer diwallu'u hanghenion.

<sup>6</sup>Mae Y Fi yw Hwn yn offeryn syml ac ymarferol y gall pobl y mae dementia arnynt ei ddefnyddio i ddweud wrth staff am eu hanghenion, eu hoff ddewisiadau, hoffbethau, casbethau a'u diddordebau.

Mae'r fenter yn caniatáu i gleifion a pherthnasau ddarparu gwybodaeth am eu dymuniadau a'u hoff ddewisiadau yn gysylltiedig â gofal a chefnogaeth. Gwnaeth prif nyrs y ward ein hysbysu bod y fenter eto i'w sefydlu'n llawn yn y ward. Fodd bynnag, roedd staff yn gweithio tuag at gynnwys amlinelliad o'r fenter mewn llyfryn ar gyfer cleifion a'u perthnasau fel eu bod yn gallu cyfathrebu'u dymuniadau parthed eu dewis enw, rhaglen deledu o'u dewis a'u dewis o ddiodydd poeth.

### **Gorffwys, Cysgu a Gweithgareddau**

*Rhoi ystyriaeth i amgylchedd a chysur pobl fel y gallant orffwys a chysgu.*

**Ni wnaeth cleifion y gwnaethom siarad â nhw roi gwybod am unrhyw bryderon neu broblemau yn ymwneud â gorffwys a chwsg. Gwnaeth cleifion ddweud wrthym eu bod yn gallu gorffwys trwy gydol y dydd neu'r nos. Dywedodd staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi profi prinderau o bryd i'w gilydd o lieiniau a gobenyddion gwelyau.**

Gwnaethom arsylwi bod cleifion yn gallu cysgu yn ystod y dydd fel roeddynt yn dymuno. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod bod y ward yn eitha' swnllyd, gyda ffonau'n cael eu gadael i ganu ar y ward ar adegau. Efallai nad yw hyn yn ffafriol i alluogi cleifion orffwys yn ystod y dydd.

Roedd y stoc o obenyddion, blancedi a llieiniau ar y ward yn isel. Dywedodd staff y gwnaethom siarad â nhw nad oedd yna stoc ddigonol o obenyddion, blancedi a llieiniau drwy'r amser. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym fod yna adegau wedi bod lle roeddynt wedi gorfod cael stoc o lieiniau ychwanegol o wardiau eraill.

### ***Argymhelliad***

***Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau bod yna stoc ddigonol o lieiniau a gobenyddion drwy'r amser i ddiwallu anghenion cleifion.***

### **Sicrhau Cysur, Lliniaru Poen**

*Rhaid helpu pobl i fod mor gyfforddus ac mor ddi-boen ag y mae eu hamgylchiadau yn caniatáu.*

**Gwnaeth yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw ddweud wrthym fod eu poen yn cael ei reoli'n iawn a'u bod yn gyfforddus. Canfu ein hadolygiad o sampl o ddogfennau cleifion fod rhai cofnodion yn brin o dystiolaeth o'r defnydd cyson o ddull sgorio poen i hysbysu'n llwyr y**



**gwaith o asesu, rheoli ac adolygu effeithiolrwydd dulliau lleddfu poen oedd wedi'u gweini.**

Datgelodd sgysiau â chleifion fod lefelau'u poen wedi gwella trwy ddefnyddio meddyginiaeth ar bresgripsiwn, eu bod yn teimlo'n gyfforddus a bod eu poen yn cael ei reoli'n iawn trwy'r amser.

Canfu ein hadolygiad o ddogfennau cleifion fod sgoriau asesu poen wedi'u cofnodi yn y man lle roedd poen cleifion wedi'i nodi. Fodd bynnag, roedd asesu a sgorio dilynol ar boen mewn rhai achosion yn anghyson. Nid oeddem yn gallu canfod tystiolaeth gynhwysfawr i ategu effeithiolrwydd analgesia<sup>7</sup> a weiniwyd ac ni allem bob amser ganfod sgoriau poen cyfoes mewn cofnodion cleifion. Roedd yn ymddangos bod sgoriau poen yn cael eu cymryd wrth fynd heibio i'r cleifion yn eu rownds yn arsylwi yn hytrach nag mewn perthynas ag anghenion cleifion unigol ar amseroedd pan oedd cleifion yn profi poen. Canfuom nad oedd yna ar adegau ailgloriannu amlwg o effeithiolrwydd y cyffur lleddfu poen a roddid.

### ***Argymhelliad***

***Cynghorir y bwrdd iechyd o'r angen am sicrhau bod lefel anghysur, poen neu drallod cleifion yn cael ei hasesu a'i chofnodi'n rheolaidd. Gellir cofnodi canlyniadau penderfyniadau wedyn ar gyfer dilyniant mewn gofal y claf.***

### **Glendid Personol, Ymddangosiad a Gofal Traed**

*Rhaid cefnogi pobl i fod mor annibynnol ag y bo modd wrth ofalu am eu glendid personol, ymddangosiad a'u traed.*

**Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn derbyn cymorth â'u glendid personol a'u hymddangosiad, yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau.**

Roedd hi'n ymddangos bod cleifion ar y ward yn derbyn gofal da a'u bod yn cael eu golchi a'u glanhau. Gwnaethom arsylwi bod rhai cleifion yn gwisgo'u dillad eu hunain. Gwnaeth sgysiau â staff ar y ward danlinellu'u bod yn annog cleifion i wisgo'u dillad eu hunain a bod ganddynt gyflenwad digonol o sebon, brwsys dannedd a photiau dannedd gosod ar y ward i gleifion eu defnyddio.

---

<sup>7</sup> Mae analgesia neu leddfwr poen yn unrhyw aelod o'r grŵp o gyffuriau a ddefnyddir i gael rhyddhad rhag poen.

Dywedwyd wrthym gan staff fod tri o'r gweithwyr cymorth gofal iechyd wedi derbyn hyfforddiant mewn gofal traed a'u bod yn ymgymryd yn rheolaidd â gofal traed i gleifion. Gwnaethom arsylwi un o'r gweithwyr cymorth gofal iechyd yn torri ewinedd claf ac yn cofnodi'r gofal a roddwyd yng nghofnod gofal y claf.

Gwnaeth staff y gwnaethom siarad â nhw fynegi pryderon bod yna ar adegau brinder wedi bod o ynau i gleifion eu gwisgo ar y ward. Dywedodd prif nyrs y ward wrthym fod y broblem o brinder gynau wedi'i huwchgysfeirio at yr uwch-reolwyr yn y bwrdd iechyd a bod y ward o ganlyniad yn hapus i gael ei chynnwys mewn prawf gan y bwrdd iechyd o gobanau a phyjamas newydd. Mae'r eitemau newydd wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer y ward gyda chyfraniad staff y ward. Dynododd prif nyrs y ward eu bod yn disgwyl derbyn y cobanau a'r pyjamas prawf o fewn yr ychydig wythnosau nesaf.

### **Bwyta ac Yfed**

*Rhaid cynnig dewis o fwyd a diod i bobl sy'n diwallu eu gofynion maethol a phersonol a darparu unrhyw gymorth sydd ei arnynt ei angen i fwyta ac yfed.*

**Canfuom fod anghenion maethol cleifion yn cael eu diwallu ac roedd yna dystiolaeth i ategu hyn wedi'i gofnodi yn nogfennau'r cleifion. Gwnaethom arsylwi staff yn sicrhau bod pob claf yn derbyn cymorth priodol ac anogaeth i fwyta ac i yfed. Fodd bynnag, canfuom fod cymeriant hylif yn cael ei gofnodi'n anghyson yng nghofnodion cleifion ac nad oedd cleifion wedi cael cynnig cyfleusterau golchi dwylo neu glytiau golchi dwylo cyn amser prydau bwyd.**

Gwnaeth ein hadolygiad o sampl o ddogfennau cleifion ddangos bod anghenion maethol cleifion yn cael eu hasesu wrth i'r claf gael ei dderbyn i'r ward. Canfuom fod Llwybr Gofal Maethol Cymru Gyfan<sup>8</sup> yn cael ei ddefnyddio â'r holl gleifion am y 48 awr gyntaf o'u harhosiad ar y ward. Cafodd y llwybr gofal maethol wedyn ei adolygu gan y nyrs, a, ble bo angen, gwnaed atgyfeiriad at y deietegydd am ragor o asesu deietetig ar y claf, neu os nad oedd atgyfeirio yn angenrheidiol, tynnwyd y claf oddi ar y llwybr.

Canfu rhagor o adolygu ar y sampl o ddogfennau cleifion y câi cleifion oedd ar siartiau bwyd y llwybr gofal maethol eu cymeriant bwyd wedi'i gofnodi'n gyson.

---

<sup>8</sup>Mae Llwybr Gofal Maethol Ysbytai Cymru Gyfan yn brotocol sy'n darparu canllawiau technegol i arlwywyr, deietegwyr a staff nyrsio sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion maethol cleifion sy'n gallu bwyta ac yfed.

Fodd bynnag, roedd y gwaith o gofnodi cymeriant hylif cleifion yn anghyson. Nid oedd gan y mwyafrif o'r siartiau hylif y gwnaethom eu hadolygu gofnod o gymeriant hylif am ddeuddydd. Gwnaethom uwchgyfeirio hyn at nyrs ar y ward a ddywedodd wrthym fod y cymeriant hylif fel arfer wedi'u cwblhau.

### ***Argymhelliad***

#### ***Cynghorir y bwrdd iechyd i ddangos bod dogfennau wedi'u cwblhau'n gyflawn a'u hadolygu yn unol â Llwybr Gofal Maethol Cymru Gyfan.***

Roedd gan y ward amseroedd prydau bwyd gwarchodedig<sup>9</sup> yn bodoli, a gwnaethom arsylwi hyn ar waith yn ystod yr arolygiad. Dywedodd staff wrthym fod perthnasau'n cael eu hannog i fynychu yn ystod amseroedd prydau bwyd a chynorthwyo'u hanwyliaid. Roedd hyn yn amlwg wrth inni arsylwi tri chlaf yn cael eu cynorthwyo gan eu perthnasau.

Roedd y ward yn gweithredu'r fenter 'Hambwrdd Coch'<sup>10</sup>, a gwnaethom arsylwi prydau bwyd yn cael eu dosbarthu ar hambyrddau cochion i gleifion oedd angen cymorth. Yn gyffredinol, gwelsom fod staff yn ymwybodol o'r fenter ac roeddynt yn brydlon wrth fynd i gynorthwyo cleifion oedd â hambyrddau cochion. Canfu ein hadolygiad o sampl o ddogfennau cleifion fod Siartiau Cofnodi Bwyd Cymru Gyfan<sup>11</sup> yn cael eu cwblhau'n briodol yn syth ar ôl amser bwyd a chan aelodau priodol o staff. Canfu ein hadolygiad o sampl o ddogfennau cleifion fod Siartiau Cofnodi Bwyd Cymru Gyfan yn cael eu

---

<sup>9</sup> Mae amseroedd bwyd gwarchodedig yn gyfnod o amser dros ginio a phrydau gyda'r nos pan fo'r holl weithgareddau ar ward ysbyty i fod i stopio. Rhoddir y trefniant hyn ar waith fel bod nyrsys a'r meistri tŷ ar gael i weini'r bwyd ac i roi cymorth i gleifion sydd angen cymorth. Mae amseroedd bwyd gwarchodedig hefyd yn atal ymyriadau diangen ag amseroedd bwyd cleifion.

<sup>10</sup> Mae'r system Hambwrdd Coch yn helpu i leihau risg maethol mewn ysbytai. Mae'r hambyrddau'n darparu arwydd bod ar gleifion sy'n agored i niwed angen cymorth a chefnogaeth gan staff, neu bod cymeriant deitegol y claf yn wael. Mae'r system yn ffordd i staff adnabod cleifion yn hawdd sydd angen cymorth â bwyta. Mae'r hambwrdd yn gweithredu fel proc i'r cof i staff ddarparu cymorth yn gyflym i gleifion fel nad yw eu hurddas ac ansawdd eu hamser bwyd yn cael eu tanseilio.

<sup>11</sup> Mae Siartiau Cofnodi Bwyd Cymru Gyfan yn gofnodion o fath ac ansawdd yr holl fwyd a diod a gymerir gan glaf trwy gydol y dydd. Dylai'r siartiau bwyd hyn gael eu cwblhau gan staff priodol y GIG wedi pob pryd.

cwblhau'n briodol yn syth ar ôl pryd bwyd a chan aelodau priodol o staff.

Roedd cleifion yn gallu cael dewis o faint y pryd bwyd a gwnaethant ddweud wrthym y gallent ofyn am fwy pe dymument. Roedd gan y ward drefniadau yn bodoli i sicrhau bod gan gleifion nad oeddynt yn bresennol ar y ward yn ystod amseroedd bwyd fodd o gyrchu bwyd addas. Adroddodd claf eu bod wedi cael bwyd o oergell y ward o'r blaen pan oeddynt wedi bod yn absennol o'r ward yn ystod amser bwyd.

Roedd gan gleifion oedd yn gallu yfed yn annibynnol fodd rhwydd o gyrchu hylifau, ac roedd jygiau dŵr yn cael eu newid yn rheolaidd trwy gydol y dydd ac ar gais. Dywedodd cleifion wrthym fod jygiau dŵr o fewn cyrraedd a bod diodydd poethion hefyd ar gael yn rheolaidd ar gais. Arsylwyd cleifion oedd angen cymorth i yfed yn cael eu cynorthwyo gan staff nyrsio.

Gwnaethom arsylwi'r paratodau ar gyfer amser bwyd, ac roedd yr holl gleifion wedi'u gosod yn briodol mewn ystum i allu bwyta'u bwyd yn gyfforddus. Ni wnaeth staff nyrsio edrych i weld bod cleifion wedi golchi'u dwylo cyn amseroedd bwyd ac ni wnaethom arsylwi staff y ward yn cynnig clytiau i'r dwylo na golchi dwylo'r cleifion. Dywedodd cleifion y gwnaethom siarad â nhw nad oeddynt wedi cael cynnig golchi'u dwylo na chlytiau i'r dwylo cyn amseroedd bwyd ac nad oeddynt wedi gweld hyn yn digwydd ar y ward.

### ***Argymhelliad***

***Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau y cynigir y cyfle i gleifion naill ai olchi'u dwylo neu ddefnyddio clytiau i'r dwylo cyn bwyta'u prydau bwyd yn unol â'u dymuniadau ac yn gyson â hanfodion gofal.***

### **Iechyd a Glendid Geneuol**

*Rhaid darparu cymorth priodol, di-stŵr a phrydlon pan fo'n angenrheidiol, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw anghenion penodol a phreifatrwydd.*

**Roedd staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o weithdrefnau ar gyfer gofal iechyd y geg, ac roedd cleifion oedd yn gallu glanhau'u dannedd a'u dannedd gosod yn annibynnol yn cael eu helpu i wneud hynny. Fodd bynnag, canfuom fod rhai cofnodion cleifion yn brin o dystiolaeth i gadarnhau y darperir gofal iechyd y geg ac ni allem gael ein sicrhau bod anghenion gofal iechyd y geg yr holl gleifion yn cael eu diwallu trwy'r amser.**

Roedd gweithwyr cymorth gofal iechyd y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o broses gofal iechyd y geg, a gwnaeth un ohonynt roi gwybod eu

bod yn glanhau dannedd gosod cleifion ac y gellir atgyfeirio cleifion at wasanaethau deintyddol os bydd angen.

Gwnaeth cleifion a siaradodd â ni roi gwybod eu bod yn gallu glanhau'u dannedd a'u dannedd gosod mor rheolaidd ag roedd arnynt eisiau gwneud. Gwnaeth staff ein hysbysu bod ganddynt frwsys dannedd ar gael i gleifion eu defnyddio. Fodd bynnag, gwnaethom arsylwi rhai cleifion a chanddynt weddillion bwyd yn eu dannedd ac a fyddai'n elwa o sylw ychwanegol yn cael ei roi i ofal iechyd y geg.

Canfu ein hadolygiad o sampl o ddogfennau ond tystiolaeth brin bod bwndel hylendid y geg yn cael ei ddefnyddio wrth i gleifion gael eu derbyn. Gwnaethom arsylwi fod claf a oedd wedi bod yn sâl mewn angen brys am ofal iechyd y geg. Gwnaethom uwchgyfeirio hyn at y nyrs oedd yn gofalu am y ward ar ddiwrnod cyntaf ein harolygiad.

### ***Argymhelliad o sicrwydd ar unwaith – gweler Atodiad A***

Trannoeth, gwnaethom adolygu cofnodion y claf ac nid oedd yn bosibl cael gwybod a oedd gofal iechyd y geg ar gyfer yr unigolyn hwn wedi'i asesu, ynteu a oedd unrhyw ofal o'r fath wedi'i ddarparu, gan nad oedd cofnodion a chynllun gofal y claf wedi'u diweddarau i gynnwys unrhyw gofnod o ragor o asesu neu o gyflenwi'r gofal yr oeddem wedi gofyn amdano.

### ***Argymhelliad***

***Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau bod yr holl ofal a roddir yn cael ei ddogfennu yng nghofnodion y claf.***

### **Anghenion Toiled**

*Rhaid rhoi cymorth priodol, diffwdan a phrydlon pan fo angen, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw anghenion penodol a phreifatrwydd.*

**Câi cleifion eu cymorth i fynd i'r toiled ac roeddynt yn gallu defnyddio'u dull toiled o ddewis. Fodd bynnag, mae ar staff angen sicrhau'n gyson bod urddas y claf yn cael ei gynnal yn ystod gofal personol. Byddai cleifion yn elwa o werthuso mwy rheolaidd o ymataliaeth i sicrhau bod gofal priodol yn cael ei ddarparu.**

Canfuom fod cyfleusterau'r toiled a'r ystafell ymolchi'n lân a bod ganddynt glychau galw cymorth brys o fewn cyrraedd rhwydd. Fodd bynnag, canfuom fod ystafelloedd cawod y cleifion yn orlawn o gyfarpar fel fframiau Zimmer a chomodau ac roedd yn rhaid eu symud er mwyn cael at y cyfleusterau.

### ***Argymhelliad***

#### ***Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau nad oes yna lanast' a chyfarpar diangen mewn cyfleusterau toiled ac yn yr ystafell ymolchi.***

Gwnaeth staff a siaradodd â ni ddweud wrthym fod y ward yn stocio dau fath o badiau ymatal mewn amrywiol feintiau a bod lefelau stoc yn ddigonol. Gwnaethom gadarnhau hyn trwy wirio'r stoc oedd ar gael yn yr ystafell storio.

Canfu ein hadolygiad o un set o ddogfennau cleifion fod yna glaf wedi gwlychu ac wedi baeddu sawl gwaith yn ystod y dydd, er gwaethaf y defnydd o badiau ymatal. Nid oedd y claf wedi'i atgyfeirio at nyrs ymatal arbenigol am ragor o asesu. Canfu ein sgysiau â staff fod yn amgenach gan staff asesu anghenion ymatal cleifion eu hunain a dewis cynnyrch addas i'w defnyddio. Yng nghofnodion y cleifion y gwnaethom eu hadolygu, nid oedd hi'n eglur bod anghenion ymataliaeth cleifion yn cael eu gwerthuso'n llawn a'u bod yn cael eu hatgyfeirio'n brydlon at nyrs ymatal arbenigol lle nad oedd ymataliaeth yn cael ei rheoli â'r dulliau a ddefnyddid gan staff nyrsio'r ward.

### ***Argymhelliad***

#### ***Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau bod Bwndel Ymataliaeth Cymru Gyfan<sup>12</sup> yn cael ei ddefnyddio'n gyson.***

Gwnaethom arsylwi un digwyddiad lle nad oedd llen erchwyn gwely claf wedi'i chau'n llwyr wrthi'r claf dderbyn cymorth gan staff nyrsio i ddefnyddio padell wely. Nid yw hyn yn arfer derbyniol.

### ***Argymhelliad***

#### ***Cynghorir y bwrdd iechyd i ddangos bod urddas cleifion yn cael ei gynnal bob amser.***

Gwnaethom arsylwi ar adegau pan oedd y ward yn neilltuol o brysur fod galwadau clychau galw cleifion am gymorth yn cymryd mwy na chwe munud i gael eu hateb. Mae'r bwrdd iechyd wedi rhoi sicrwydd inni o'r camau a gymerwyd mewn perthynas â'r canfyddiad hwn, a gellir eu canfod yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

---

<sup>12</sup> Mae Bwndel Ymataliaeth Cymru Gyfan yn darparu offer i nyrsys nodi'r anghenion a'r cymorth o ran ymataliaeth uniongyrchol a chyfnod hwy y mae cleifion eu hangen.

## **Rhwystro briwiau pwysu**

*Rhaid helpu pobl i ofalu am eu croen a gwneud pob ymdrech i'w rhwystro rhag datblygu briwiau pwysu.*

**Canfuwyd tystiolaeth gennym fod staff yn defnyddio dull asesu manau pwysu i'w cynorthwyo i nodi'r cleifion hynny a allai fod mewn perygl o ddatblygu niwed i'r croen.**

Canfu ein craffu o sampl o ddogfennau cleifion fod offeryn asesu man pwysu wedi'i ddefnyddio ar y ward. Roedd dogfennau'r cleifion yn cynnwys asesiadau risg o fannau pwysu unigol a wnaed wrth dderbyn y claf. Roedd yna dystiolaeth o ofalu a monitro man pwysu yn cael ei wneud gan nyrsys yn ystod rowndio bwriadol<sup>13</sup>, ac roedd yr holl asesiadau o'r manau pwysu y gwnaethom eu hadolygu yn gyfoes ac yn cynnwys tystiolaeth o fonitro a gwerthuso rheolaidd.

Roedd matresi priodol wedi'u darparu i gleifion oedd wedi'u hasesu fel cleifion oedd mewn mwy o berygl o fagu manau pwysu. Gwnaeth staff y gwnaethom siarad â nhw ddweud wrthym eu bod yn ceisio cael matresi lliniaru briwiau pwysu ar y cyfle cyntaf. Gwnaeth staff hefyd ddweud wrthym eu bod yn rhoi sylw ychwanegol i ddulliau eraill o liniaru briwiau manau pwysu, megis mwy o droi rheolaidd ar y corff ac ailosod ystum y claf, petai yna oediadau cyn cael matresi lliniaru pwysu. Gwnaethom arsylwi bod y ward yn dangos croesau diogelwch<sup>14</sup> i gyfathrebu'i pherfformiad ar nifer yr achosion o fannau pwysu â chleifion ac ymwelwyr.

---

<sup>13</sup> Mae rowndio bwriadol yn broses strwythuredig lle mae nyrsys ar wardiau mewn ysbytai aciwt a chymunedol a staff cartrefi gofal yn cynnal archwiliadau rheolaidd â chleifion unigol ar gyfnodau penodedig, bob awr yn nodweddiadol. Yn ystod yr archwiliadau hyn, maent yn cynnal gorchwylion wedi'u trefnu neu orchwylion gofynnol.

<sup>14</sup> Mae croesau diogelwch yn groesau â chod lliwiau a welir ar wardiau i wneud yn weladwy i gleifion ac ymwelwyr unrhyw achos o ddigwyddiadau andwyol y mae modd eu hosgoi (megis claf yn magu wiser pwysu).

## ***Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth***

**Yn gyffredinol, gwnaethom arsylwi bod y ward yn amgylchedd neilltuol o heriol oherwydd maint a phellter maith rhwng gorsafoedd y nyrsys a mannau bae'r cleifion. Byddai cleifion yn elwa o weld mwy o staff ym mannau bae'r ward. Byddai tîm y ward yn elwa o gyfathrebu mwy agored a chydgysylltiedig rhwng gweithwyr cymorth gofal iechyd a nyrsys cofrestredig i sicrhau bod cleifion, y gall eu cyflyrau fod wedi newid, yn cael eu nodi a'u hasesu ar y cyfle cynharaf.**

**Gwnaethom nifer o ganfyddiadau mewn perthynas ag ansawdd staffio, rheolaeth ac arweinyddiaeth, y gofynnem am sicrwydd ar unwaith amdano oddi wrth y bwrdd iechyd. Mae'r bwrdd iechyd wedi darparu ymateb boddhaol i AGIC gan roi manylion o'i weithredoedd, y gellir eu canfod yn Atodiad A.**

Mae'r egwyddorion arweiniol ar gyfer staff nyrsio, a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Nyrsio Cymru, yn datgan na ddylid neilltuo mwy na saith o gleifion i bob nyrs gofrestredig ar wardiau meddygol / llawfeddygol yn ystod y diwrnod. Roedd staffio ar ddiwrnod cyntaf ein harolygiad yn bodloni'r gofyniad lleiaf. Gwnaethom arsylwi ar ail ddiwrnod ein harolygiad fod y ward yn brin o staff oherwydd gwaeledd a bod prif nyrs y ward wedi'i chynnwys o fewn niferoedd y nyrsys i ddarparu gofal uniongyrchol i gleifion. O ganlyniad, nid oedd prif nyrs y ward yn gallu treulio amser yn trefnu'r tîm nyrsio a gofal cleifion, ac roedd ganddi ond amser cyfyngedig ar gael i ganolbwyntio ar rôl reoli ac arwain o fewn y tîm amlbroffesiynol.

### ***Argymhelliad sicrwydd ar unwaith – gweler Atodiad A***

Gwnaeth staff a gytunodd i siarad â ni fynegi pryder yn ymwneud â nifer y staff oedd ar gael i ddiwallu anghenion y grŵp cleifion yn ystod y nos a thros y penwythnos. Gwnaeth ein trafodaeth â phrif nyrs y ward ddynodi bod protocol uwchgyfeirio ffurfiol y bwrdd iechyd ar adegau wedi'i ddilyn er mwyn cael staff nyrsio ychwanegol pan gwmpai niferoedd y staff islaw'r gofyniad lleiaf. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y gronfa nyrsys wrth gefn ar adegau wedi methu â darparu digon o nyrsys ac yn yr achosion hyn, byddai prif nyrs y ward yn bersonol yn cyflenwi dros dro, fel y gwnaethom arsylwi yn ystod ail ddiwrnod ein harolygiad.

Gwnaethom arsylwi bod y ward yn amgylchedd neilltuol o heriol oherwydd y maint a'r pellter maith rhwng gorsafoedd y nyrsys a mannau bae'r cleifion. Roedd yna gyfnodau pan nad oedd staff nyrsio'n weladwy yn rheolaidd ym mannau bae'r cleifion oherwydd eu bod yn gweithio o amgylch gorsaf y nyrsys.



### ***Argymhelliad sicrwydd ar unwaith – gweler Atodiad A***

Ar ail ddiwrnod yr arolygiad, cymerodd chwe aelod o staff seibiant yr un pryd yn ystod y bore. Gwnaeth hyn leihau nifer y staff oedd ar gael i ddarparu gofal ac i arsylwi'n ddi-dor ar gleifion ym manau bae'r cleifion.

### ***Argymhelliad sicrwydd ar unwaith – gweler Atodiad A***

Roedd y ward yn llawn yn ystod yr arolygiad ac roedd mwyafrif y cleifion yn oedrannus ag anghenion meddygol cymhleth, a rhai hefyd â dementia neu namau gwybyddol eraill. Gwnaethom arsylwi rownd o amgylch ward yn cael ei gwneud gan amrywiol feddygon yn arbenigo mewn meddygaeth, gofal o'r person hŷn a seiciatreg, yn ogystal â thrawma. Gwnaeth yr hwyluswr llwybr orthogeriatrig fynychu'r rownd o amgylch y ward, ac fe'n cynghorwyd gan y bwrdd iechyd ei fod yn arferiad arferol ar y ward neilltuol hon i brif nyrs y ward beidio â bod yn bresennol ar bob rownd o amgylch y ward. Mae'r mwyafrif o rowndiau o amgylch y ward yn cael eu mynychu gan yr hwyluswr llwybr orthogeriatrig, a oedd, fe'n hysbyswyd, yn cyfathrebu deilliannau rownd y ward wrth brif nyrs y ward. Mae hyn er mwyn sicrhau cydgysylltu effeithiol ar unrhyw newidiadau i gynllun gofal y cleifion a threfniadau rhyddhau cleifion o'r ysbyty.

Gwnaethom nodi dibyniaeth gref ar weithwyr cymorth gofal iechyd i gynnal arsylwadau a sgorio diogelwch; er enghraifft, Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS)<sup>15</sup>. Canfuwyd y gallai hi fod yn rhai oriau cyn i'r nyrsys hyfforddedig adolygu'r arsylwadau hyn i ddiwygio gofal, fel y bo angen.

### ***Argymhelliad sicrwydd ar unwaith – gweler Atodiad A***

Roedd hi'n anodd canfod trefniadaeth eglur o atebolrwydd proffesiynol ar y ward ar adegau oherwydd bod yna ddiffyg eglurder ynghylch pwy oedd wrth y llyw neu'n dirprwyo gwaith i'r staff o weithwyr cymorth gofal iechyd heb eu cofrestru.

### ***Argymhelliad sicrwydd ar unwaith – gweler Atodiad A***

Gwnaethom arsylwi digwyddiad pan oedd cyflwr claf wedi newid, a gwnaethom deimlo bod arno angen asesiad prydlon gan nyrs gofrestredig. Roedd y tîm nyrsio ar y ward yn araf i amgyffred ac i ymateb i hyn. Rhoddwyd sylw i'r claf

---

<sup>15</sup>Mae'r system Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS) yn cynorthwyo staff gofal iechyd i ganfod yn gyson ddirywiad yng nghyflwr cleifion, fel eu bod yn gallu galw am gymorth meddygol brys.

pan wnaeth y tîm arolygu uwchgyfeirio'u pryderon a gofyn am nyrs gofrestrdig i adolygu cyflwr y claf.

***Argymhelliad sicrwydd ar unwaith – gweler Atodiad A***

Canfuom y byddai tîm y ward yn elwa o gyfathrebu mwy agored a chydgysylltiedig rhwng staff gweithwyr cymorth gofal iechyd a nyrsys cofrestredig a rhwng staff nyrsio, meddygol a therapi. Byddai gwell cyfathrebu'n cynorthwyo i nodi, ar y cyfle cyntaf, gleifion yr oedd eu cyflwr efallai wedi newid.

***Argymhelliad sicrwydd ar unwaith – gweler Atodiad A***

Gwnaethom adolygu cofnodion nifer o gyfarfodydd staff blaenorol a chanfod mai ond pum staff nyrsio oedd wedi mynychu'r cyfarfod tîm diwethaf ym mis Gorffennaf, 2014. Mae cyfarfodydd staff yn gyfle da i staff dderbyn gwybodaeth ac i rannu'u barn, ac nid oeddem yn gallu canfod na chael gafael ar wybodaeth am fwy o gyfraniad gan y tîm ehangach.

Gwnaeth ein hadolygiad o sampl o ddogfennau cleifion ddangos nad oeddem yn gallu canfod yn rhwydd gynlluniau meddygol neu amlbroffesiynol eglur o ran rheoli cleifion. Nid oedd hi'n bosibl canfod o'r cofnodion gwrs o driniaeth a gofal wedi'i gynllunio, a ddynodai ddiffyg arweinyddiaeth gyffredinol gan feddygon mewn perthynas â rheoli arhosiad claf ar y ward. Roedd rhai nodiadau achosion yn dangos nad oedd cynlluniau gofal nyrsio craidd, er eu bod yn cael eu defnyddio, yn adlewyrchu'n eglur ofal cleifion unigoleddig oedd wedi'i gynllunio.

***Argymhelliad sicrwydd ar unwaith – gweler Atodiad A***

## **Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol**

*Rhaid hyrwyddo ac amddiffyn iechyd, diogelwch a lles pobl yn weithredol. Rhaid nodi risgiau, eu monitro a lle y bo'n bosibl, eu lleihau neu eu rhwystro.*

**Gwnaethom arsylwi bod y ward ar adegau'n anhrefnus a bod yna ddiffyg trefniadaeth â ffocws rhwng y gwahanol staff. Cymhlethwyd hyn gan broblemau â rhai dulliau cyfathrebu, megis gwybodaeth cleifion ar fyrddau cipolwg, y gwnaethom ganfod nad oeddynt wedi'u cydlynu'n effeithiol a'u diweddarau â gwybodaeth berthnasol er mwyn helpu staff. Golygai hyn fod staff yn ei chael hi'n anodd ar adegau darparu ffocws a sylw llawn i ddogfennu tystiolaeth o sut y maent wedi diwallu anghenion gofal unigol cleifion yn llawn.**

**Gwnaethom nifer o ganfyddiadau mewn perthynas â chyflenwi gwasanaeth diogel ac effeithiol y gwnaethom ofyn am sicrwydd ar unwaith amdano oddi wrth y bwrdd iechyd. Mae'r bwrdd iechyd wedi darparu ymateb boddhaol i AGIC gan roi manylion o'i weithredoedd, a gellir eu canfod yn Atodiad A.**

### **Diogelwch Cleifion**

Gwnaethom arsylwi bod y ward yn defnyddio gwybodaeth cleifion ar fyrddau cipolwg oedd yn cynnwys gwybodaeth cleifion, yn cynnwys Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol<sup>16</sup>(NEWS), pa un ai a oedd gan gleifion gyflyrau megis clefyd siwgr. Gwnaethom graffu ar sampl o gofnodion cleifion a chymharu'r wybodaeth ynddynt â'r wybodaeth ar y wybodaeth cleifion ar fyrddau cipolwg. Canfuom nad oedd y wybodaeth ar y byrddau'n gyfoes ac nad oedd felly'n gwasanaethu'r diben yr oedd yn cael ei defnyddio ar ei gyfer, a gallai o bosibl ddynodi gwybodaeth anghywir am gleifion.

### ***Argymhelliad sicrwydd ar unwaith – gweler Atodiad A***

Gwnaeth ein hadolygiad o sampl o ddogfennau cleifion nodi bod sgoriau diogelwch cleifion ar ffurf sgoriau NEWS wedi'i gofnodi'n anghyson rhwng dogfennau cleifion a'r wybodaeth cleifion ar fyrddau cipolwg. Roedd hyn yn

---

<sup>16</sup>Mae Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS) yn offer asesu safonedig a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd i nodi ac i ymateb i gleifion sy'n dangos neu sy'n magu gwaeledd aciwt.

dynodi nad oedd gan nyrsys cofrestredig ymwybyddiaeth lawn o statws NEWS pob claf ar gipolwg, ac o bosibl nad ydynt yn ymwybodol o sgôr NEWS sy'n newid sydd gan glaf (fel y'i cofnodir mewn dogfennau cleifion). Gwnaethom hefyd nodi nad oedd y mesuriadau arsylwi a gymerwyd ac a gofnodwyd wrth erchwyn y gwely gan weithwyr cymorth gofal iechyd wedi'u hadolygu gan nyrsys cofrestredig ers nifer o oriau. Gallai'r oedi hyn mewn adolygu arwain at wybodaeth wallus yn cael ei defnyddio fel sail i weithrediad gan nyrsys cofrestredig. Felly, mae'n bwysig bod nyrsys cofrestredig yn cael eu gwneud yn ymwybodol mor brydlon â phosibl bod mesuriadau arsylwi wedi'u diweddarau.

### ***Argymhelliad sicrwydd ar unwaith – gweler Atodiad A***

Gofynnem rai cwestiynau sylfaenol i nifer o nyrsys am y cleifion ar y ward a chanfod bod gan yr holl nyrsys y gwnaethom siarad â nhw wybodaeth anghyson am y cleifion. Cymhlethwyd hyn gan wallau yn y wybodaeth am y wybodaeth cleifion ar fyrddau cipolwg. Er enghraifft, roedd y wybodaeth cleifion ar fyrddau cipolwg yn dynodi nad oedd yna gleifion oedd â chlefyd siwgr ar y ward, a chawsom sgysiaiu â thair nyrs gofrestrdig wahanol a eglurodd nad oedd yna gleifion a oedd â chlefyd siwgr ar y ward. Fodd bynnag, canfu ein hadolygiad o sampl o ddogfennau cleifion fod yna gleifion oedd â chlefyd siwgr ar y ward. Canfuom wrth ymchwilio rhagor fod y cleifion oedd â chlefyd siwgr yn derbyn y driniaeth gywir am eu cyflyrau.

### ***Argymhelliad sicrwydd ar unwaith – gweler Atodiad A***

Canfu ein hadolygiad o sampl o ddogfennau cleifion fod yna nifer o ffurflenni Na Cheisier Dadebru (DNAR) nad oeddynt wedi'u cwblhau'n gyflawn, nac wedi'u hadolygu unwaith yr oedd cyflwr claf wedi newid. Ni allem ganfod o ddogfennau'r cleifion a oedd y ffurflenni DNAR wedi'u huwchgyfeirio at yr orthogeriategydd ymgynghorol i'w hadolygu a'u diweddarau.

### ***Argymhelliad sicrwydd ar unwaith – gweler Atodiad A***

Canfuom ond tystiolaeth brin bod asesiadau gallu meddyliol effeithiol<sup>17</sup> wedi'u gwneud. Roedd y ward yn gofalu am gyfradd uchel o gleifion oedrannus, ac roedd ar lawer ohonynt nam gwybyddol. Felly, byddai'n bwysig asesu gallu meddyliol yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gallu Meddyliol (2005) i bennu a oedd gan gleifion y gallu i gydsynio â'u gofal a'u triniaeth. Roedd gan staff ond

---

<sup>17</sup> Defnyddir asesiadau gallu meddyliol i benderfynu a oes gan gleifion y gallu i lwyr ddeall ac i roi caniatâd ar gyfer eu gofal a'u triniaeth. Diffinnir hyn yn Neddf Gallu Meddyliol 2005.

ddealltwriaeth gyfyngedig o bwysigrwydd asesiadau gallu meddyliol. Fe'n hysbyswyd gan staff fod drysau'r ward dan glo pan fo ganddynt gleifion sy'n crwydro o amgylch y ward. Er y gall cloi drysau'r ward atal cleifion sy'n crwydro rhag gadael y ward, ni wnaeth staff gydnabod y gellid ystyried hyn yn amddifadedd posib' o ryddid petai claf yn ceisio gadael y ward ac fe'i rhwystrwyd rhag gwneud hynny. Ped ystyridd fod claf yn ddiffygiol mewn gallu meddyliol ac fe'i rhwystrwyd rhag gadael y ward, byddai angen awdurdodiad o dan y Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid<sup>18</sup> er mwyn rhoi'r ystyriaeth orau i fuddiannau cleifion.

### ***Argymhelliad sicrwydd ar unwaith – gweler Atodiad A***

#### **Yr Amgylchedd**

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom arsylwi bod amgylchedd y ward ac argaeledd lle gwag yn her i'r staff. Canfuom fod faint o le oedd ar gael o amgylch manau'r gwelyau, yn enwedig yn y naw man â gwelyau, yn gyfyngedig iawn i staff weithio ynddynt ac i gleifion gael lle o amgylch manau'r gwelyau. Roedd ar lawer o'r cleifion angen defnyddio cyfarpar symudedd, megis fframiau Zimmer, na allai'r manau o amgylch y gwelyau bob amser wneud lle iddynt heb wneud y lle'n orlawn. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gweithio yn y lle gwag sydd ar gael gan roi cleifion oedd â chyfarpar symudedd ychwanegol yn y gwelyau a oedd â mwy o le ar gael i wneud lle i'r cyfarpar.

Gwnaethom arsylwi bod yna ddrws agored i fan y gegin oedd yn cynnwys ffyrnau masnachol gweithredol. Roedd gan fan y gegin ddrws mynediad arall wedi'i leoli ar y coridor y tu allan i'r ward, ond dywedodd staff wrthym nad oedd y drws hwn yn cael ei ddefnyddio. Gwnaethom arsylwi bod y drws o'r ward i fan y gegin yn agored yn rheolaidd ac nad oedd yna neb yn bresennol yn yr ystafell yn ystod yr arolygiad. Canfuom hefyd fod y drws i'r ystafell wastraff ar y ward, oedd â chlo bysellbad arno, heb ei gloi. Golygai hyn fod yna risg y gallai pobl heb awdurdod fynd i mewn i'r gegin neu i'r ystafell wastraff pan adewid hi heb neb ar ei chyfyl.

### ***Argymhelliad sicrwydd ar unwaith – gweler Atodiad A***

---

<sup>18</sup>Mae'r Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn rhan o Ddeddf Gallu Meddyliol 2005. Mae'r trefniadau diogelu wedi'u bwriadu i ddiogelu pobl sy'n ddiffygiol mewn gallu meddyliol i roi caniatâd ar gyfer gofal neu driniaeth rhag cael eu caethiwo pan nad yw hyn er eu lles gorau ac i roi'r hawl i bobl herio penderfyniad.

Gwnaethom arsylwi bod yr ystafell stoc yn flêr ac yn orlawn a chanddi eitemau o gyfarpar wedi'u storio o flaen silffoedd a chypyrddau y byddai angen eu symud er mwyn cael at y cypyrddau a'r silffoedd hynny. Canfuom hefyd fod eitemau wedi'u pentyrru ar silffoedd ar lefel uchel ac y gallant fod yn risg i staff petaent yn syrthio.

### ***Argymhelliad***

***Cynghorir y bwrdd iechyd i adolygu'r arfer o storio stoc a chyfarpar ar lefel uchel a phentyrru ar silffoedd mewn ystafelloedd storio er mwyn sicrhau nad oes yna risg i staff.***

### **Rhwystro a Rheoli Heintiau**

Gwnaethom nodi bod ystafell feddyginiaeth ar un ochr o'r ward yn un llanast' a bod yna nifer o droliâu gorchuddion wedi'u storio o flaen bin yr offer miniog. Golygai hyn y byddai'n rhaid i staff, er mwyn cael gwared ag unrhyw beth miniog, yn gyntaf symud y troliâu gorchuddion er mwyn cyrraedd bin yr offer miniog.

Gwnaethom hefyd arsylwi risg uwch o drosglwyddo heintiau ac anaf oherwydd offer miniog ar y ward. Roedd hyn oherwydd y defnydd anghywir o hambyrddau trin. Canfuom fod staff nyrsio yn rheolaidd yn cludo hambyrddau trin oedd yn cynnwys offer miniog defnyddiedig o erchwyn gwelyau cleifion i'r bin gwaredu offer miniog yn yr ystafelloedd meddyginiaeth. Er bod gan yr hambyrddau trin le neilltuol ar gyfer blwch offer miniog, nid oedd yna flwch offer miniog i'w weld ar yr hambwrdd ac roedd offer miniog yn rhydd o fewn yr hambyrddau.

### ***Argymhelliad sicrwydd ar unwaith – gweler Atodiad A***

Gwnaethom arsylwi bod staff yn defnyddio llwyfannau trosglwyddo cleifion yn rheolaidd i gynorthwyo cleifion i'r ystafell ymolchi ac i'r cyfleusterau cawod ar y ward. Gwnaeth staff hefyd ein hysbysu eu bod yn defnyddio cynfasau llithro ar y ward ar gyfer troi neu symud cleifion. Canfu archwiliad o sampl o ddogfennau cleifion fod yna ond tystiolaeth brin i gadarnhau bod cleifion wedi'u hasesu'n unigol ar gyfer y defnydd o gynnyrch codi a chario addas, megis y cynfasau llithro a llwyfannau trosglwyddo cleifion.

### ***Argymhelliad***

***Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau bod asesiadau ar gyfer y defnydd o gymhorthion codi a chario'n cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion.***

## **Glendid a Hylendid y Dwylo**

Ni wnaethom hapwrio glendid yn ystod yr arolygiad; fodd bynnag, ymgasglodd ein harsylwadau cyffredinol o arferion glendid fod y ward at ei gilydd yn lân trwy gydol yr arolygiad.

Canfuom fod yr holl ystafelloedd golchfeydd, meddyginiaethau a storio yn lân ac roeddynt yn dangos bod rhywfaint o'r arferion gofal gweddnewidiol wedi dechrau cael eu gweithredu i nodi cynnwys y cypyrddau. Fodd bynnag, nid oedd yr arferion gofal gweddnewidiol eto wedi'u llwyr sefydlu.

Roedd yr holl gomodau wedi'u glanhau a'u storio'n addas yn barod i'w defnyddio. Fodd bynnag, canfuom nad oedd gan yr un o'r comedau glân dâp gwyrdd wedi'i gydio wrthynt er mwyn dynodi eu bod wedi'u glanhau a'u bod yn barod i'w defnyddio. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith bod y tâp gwyrdd ar gael yn ystafell yr olchfa.

## ***Argymhelliad***

***Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau ymagweddiad cyson tuag at ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan<sup>19</sup>.***

## **Rheoli Meddyginiaethau**

Gwnaeth staff y gwnaethom siarad â nhw ddweud wrthym eu bod yn gallu cyrchu polisïau'r bwrdd iechyd ar gyfer storio diogel, rhagnodi a gweinyddu a dosbarthu cyffuriau. Gwnaethant egluro bod y wybodaeth yn hawdd ei chyrchu ac yn cael ei chadw mewn ffolder yn swyddfa'r nyrsys.

Roedd gan yr ystafell feddyginiaeth fynediad diogel, a thrwy gydol y rhan fwyaf o'r arolygiad, cyfyngwyd ar fynediad i staff nyrsio oedd yn nôl meddyginiaeth i gleifion. Fodd bynnag, ar nifer fechan o adegau, gwnaethom arsylwi bod drws yr ystafell feddyginiaethau wedi'i adael heb ei gloi ac nad oedd neb ar ei gyfyl, a olygai fod yna risg y gallai pobl heb awdurdod gael mynediad i'r ystafell.

---

<sup>19</sup>Mae canllawiau Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan yn berthnasol i holl staff y GIG yng Nghymru ac maent yn rhoi manylion arferion / prosesau atal a rheoli heintiau er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu diogelu.

## ***Argymhelliad***

***Cynghorir y bwrdd iechyd i ddangos bod yna systemau ar waith ar gyfer sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel ac yn sicr.***

Unwaith yn yr ystafell feddyginiaeth, gwaith hawdd oedd canfod meddyginiaeth gan fod yna luniau ar flaen y cypyrddau yn dangos pa feddyginiaeth a gynhwysid ynddynt. Roedd cypyrddau ac oergell y cyffuriau rheoledig wedi'u cloi, a chawsom olwg ar sampl o gofnodion yn llyfr cofnodi'r cyffuriau rheoledig a chanfuom fod popeth yn gywir.

## **Clychau Galw Cleifion**

Canfuom fod gan bob claf glychau galw oedd yn gweithio. Gwnaeth un claf roi gwybod fod ganddo gynt gloch alw ddiffygiol am saith niwrnod ond y darparwyd cloch llaw iddo. Roedd dau glaf ar y ward yn galw am gymorth nyrs. Canfuom fod hyn oherwydd nad oedd gan y cleifion eu clychau galw o fewn cyrraedd iddynt. Gwnaethom drosglwyddo'r clychau galw i gyrhaeddiad y cleifion gan hysbysu'r staff nyrsio bod y clychau galw wedi bod y tu hwnt i'w cyrraedd.

## ***Argymhelliad***

***Cynghorir y bwrdd iechyd i atgoffa staff i sicrhau bod gan gleifion glychau galw o fewn eu cyrraedd bob amser er mwyn rhybuddio staff os bydd angen cymorth.***

Yn gyffredinol, adroddodd cleifion fod clychau galw'n cael eu hateb yn brydlon, er yn ystod bore ail ddiwrnod yr arolygiad, gwnaethom arsylwi oediadau o dros chwe munud cyn bod galwadau clychau galw cleifion yn cael eu hateb.

***Argymhelliad sicrwydd ar unwaith – gweler Atodiad A***



## 6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad B) i roi sylw i ganfyddiadau allweddol yr arolygiad, a chyflwyno'i gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ar Ward B6 Trawma ac Orthopedeg yn Ysbyty Athrofaol Cymru yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwn yn gyfundrefnol ar draws adrannau / unedau eraill y bwrdd iechyd.

Caiff cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y cytunir arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus ar urddas a gofal hanfodol.

## Atodiad A

**Urddas a Gofal Hanfodol:** Cynllun Gwella Sicrwydd Ar unwaith

**Ysbyty:** Ysbyty Athrofaol Cymru

**Ward/ Adran:** B6 Trawma ac Orthopedeg

**Dyddiad yr arolygiad:** 22 a 23 Gorffennaf 2014

| Canfyddiadau AGIC  | Ymateb y Bwrdd Iechyd  | Swyddog Cyfrifol | Amserlen                           |
|--|--|------------------|------------------------------------|
| <b>Cyflenwi Hanfodion Gofal</b>  |  |                  |                                    |
| Roedd y dull o gyflenwi'r Safonau Hanfodion Gofal yn amrywio ac nid oeddem yn gallu cadarnhau bod y safonau hyn yn cael eu bodloni ar gyfer pob un o'r cleifion, bob amser. Er enghraifft, gwelwyd bod claf wedi derbyn gofal iechyd y geg annigonol ac roedd angen i glaf arall gael gofal mwy priodol o ran ymataliaeth na'r hyn roedd wedi'i dderbyn. | Rhaid i Uwch Nyrsys gynnal archwiliadau "hapwiriadau" ychwanegol ar B6 yn seiliedig ar Hanfodion Gofal | Uwch Nyrs        | wythnos yn dechrau ar 18 Awst 2014 |
|  | Proffil Iechyd y Geg i'w drafod â'r holl staff nyrsio  | Prif Nyrs y Ward | wythnos yn dechrau ar 18 Awst 2014 |
|  | Cyflwyno'r bwndel ymataliaeth yn barhaus, a'r staff sy'n weddill i dderbyn diweddariadau.              | Prif Nyrs y Ward | wythnos yn dechrau ar 18 Awst 2014 |
|  | Cafwyd offer ymataliaeth ychwanegol.   | Prif Nyrs y Ward | wythnos yn                         |

| Canfyddiadau AGIC   | Ymateb y Bwrdd Iechyd   | Swyddog Cyfrifol  | Amserlen                                  |
|---|---|---|---|
|   |   |   | dechrau ar 18 Awst 2014                   |
| <p>Gwelsom un o'r cleifion a oedd angen gofal iechyd y geg a gwnaethom dynnu sylw'r nyrs â gofal at hyn. Nid oedd yn bosibl i ganfod a oedd yr angen am ofal iechyd y geg yr unigolyn hwn wedi'i asesu, neu a ddarparwyd unrhyw ofal o'r fath, am nad oedd cynllun gofal y claf yn cynnwys cofnod o unrhyw asesiad na chyflenwad gofal.</p> | <p>Cyflwyno bwndel gofal y geg.</p>   | <p>Prif Nyrs y Ward</p>   | <p>wythnos yn dechrau ar 8 Medi 2014</p>  |
| <p>Nid oedd staff yn ymateb yn brydlon i'r clychau galw. Pan gawsant eu hamseru, roedd cleifion yn gorfod aros chwe munud nes cael ymateb. (Nid ydym fel arfer yn amseru hyd yr ymateb i'r clychau galw, ond roedd pryder y tîm yn ddigonol i wneud hynny yn ystod yr arolygiad hwn).</p>   | <p>Dylid atgoffa'r staff ei fod yn bwysig i ymateb i glychau galw yn brydlon a hyd yn oed os na ellir darparu gofal uniongyrchol bryd hynny, dylid esbonio hynny i'r claf.</p>  | <p>Prif Nyrs y Ward</p>   | <p>wythnos yn dechrau ar 18 Awst 2014</p> |
|   | <p>Dylid archwilio'r ymateb i alwadau'r clychau galw yn rheolaidd.</p>  | <p>Nyrs y Ward,<br/>Uwch Nyrs,<br/>Hwylusydd Nyrs<br/>Practis</p>       | <p>wythnos yn dechrau ar 8 Medi 2014</p>  |
| <p><b>Ansawdd Rheoli, Arweiniaeth a Staffio</b></p>   |   |   |   |
| <p>Arweinyddiaeth Feddygol:<br/>Nid oedd unrhyw dystiolaeth o arweinyddiaeth feddygol glir ac roedd ein harolygiad o sampl o gofnodion cleifion yn</p>  | <p>Ailadrodd yr archwiliad o gofnodion y cleifion ymhen tri mis i wirio bod cleifion yn cael eu harolygu gan staff meddygol yn rheolaidd a bod ganddynt gynllun gofal clir.</p> | <p>Nyrs Arwain/<br/>Uwch Nyrs/<br/>Ymgynghorydd<br/>Orthogeriatregy</p> | <p>Tachwedd 2014</p>                      |

| Canfyddiadau AGIC   | Ymateb y Bwrdd Iechyd  | Swyddog Cyfrifol | Amserlen                           |
|---|--|------------------|------------------------------------|
| nodi nad oedd gan gleifion gynlluniau gofal aml-broffesiynol.   |  | dd               |                                    |
| Prin oedd y cyfathrebu rhwng y staff meddygol â'r nyrs â gofal. Yn ystod rownd archwiliad meddygol gwnaethom arsylwi nad oedd y nyrs â gofal yn bresennol i sicrhau bod unrhyw newidiadau i gynlluniau gofal cleifion a threfniadau rhyddhau yn cael eu cydlynu'n effeithiol. | Proses archwiliadwy ar gyfer trosglwyddo rowndiau ar wardiau ar waith. | Prif Nyrs y Ward | wythnos yn dechrau ar 18 Awst 2014 |
| Atebolrwydd Nyrsio Proffesiynol:<br>Cafodd cleifion eu clustnodi i nyrsys cofrestredig ac nid oedd gan yr un nyrs cofrestredig mwy na saith o gleifion yn unol â chanllawiau Prif Swyddog Nyrsio Cymru o ran nyrsys ar wardiau meddygol a llawfeddygol i oedolion.            | Nid oes angen camau gweithredu pellach.                                | Amherthnasol     | Amherthnasol                       |
| Er bod nyrs â gofal ar y ward, gwelsom nad oedd y tîm nyrsio yn cael ei drefnu a'i reoli'n effeithiol a phrin oedd y baich gwaith yn cael ei flaenoriaethu ymhlith y staff nyrsio ac  | Arddangoswyd posteri adnabod Tîm Rheolwyr y ward.                      | Prif Nyrs y Ward | Cwblhawyd                          |
|   | Manylion y nyrs â gofal o'r shifft newydd wedi'u harddangos.           | Uwch Nyrs        | Cwblhawyd                          |

| Canfyddiadau AGIC   | Ymateb y Bwrdd Iechyd  | Swyddog Cyfrifol                             | Amserlen                           |
|---|--|--|------------------------------------|
| ymhlith y tîm aml-ddisgyblaeth.   | Penodwyd dirprwy brif nyrs i bob tîm, dan oruchwyliaeth Prif Nyrs y Ward.  | Prif Nyrs y Ward                             | Cwblhawyd                          |
|   | –Dosbarthiad y staff ar bob sifft yn adlewyrchu anghenion y cleifion ochr yn ochr â'r cyfrifoldebau o fod yn nyrs â gofal sydd yn yr amlwg ar y ward.  | Prif Nyrs y Ward                             | Cwblhawyd                          |
| Roedd prif nyrs y ward yn rhan o dîm y nyrsys a oedd yn goruchwyllo llwyth gwaith trwm ac felly nid oeddent yn gallu canolbwyntio'n effeithiol ar drefnu'r tîm nyrsio na'r gwaith nyrsio ar y ward.                           | Ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r opsiwn fod nyrsys y ward yn cael eu goruchwyllo gan staff Prif Swyddog Nyrsio gan ganiatáu goruchwyliaeth fwy dwys, cefnogaeth a goruchwyliaeth o'r tîm a'r gwaith. | Bwrdd clinigol/Nyrsys Arwain/<br>Uwch-nyrsys | wythnos yn dechrau ar 8 Medi 2014  |
|   | Dosbarthiad y staff ar bob sifft yn adlewyrchu anghenion y cleifion ochr yn ochr â'r cyfrifoldebau o fod yn nyrs â gofal sydd yn yr amlwg ar y ward.   | Prif Nyrs y Ward                             | Cwblhawyd                          |
| Mae'r ward yn amgylchedd heriol oherwydd ei maint a'r pellter maith rhwng gorsafoedd y nyrsys a chifannau'r cleifion. Roedd cyfnodau pan wnaethom arsylwi nad oedd staff nyrsio i'w gweld yn amlwg yng ngilfannau'r cleifion. | Cyflwyno rowndiau bwriadol er mwyn adolygu'r gleifion i gyd yn rheolaidd hyd yn oed pan na fydd presenoldeb parhaus mewn cilfan yn bosibl.   | Prif Nyrs y Ward                             | wythnos yn dechrau ar 11 Awst 2014 |

| Canfyddiadau AGIC  | Ymateb y Bwrdd Iechyd   | Swyddog Cyfrifol                                     | Amserlen                                  |
|--|---|--|---|
| <p>Gwnaethom arsylwi bod chwe aelod staff yn ymddangos eu bod ar egwyl yr un pryd yn ystod y bore, gan leihau nifer y staff ar y llawr i ddarparu gofal parhaus i'r cleifion ac arsylwi ar ardaloedd y cleifion.</p>   | <p>Dywedwyd wrth bob aelod o staff nad yw'n dderbyniol iddynt gymryd egwyl yn yr ardal glinigol a bod dyletswydd arnynt i herio unrhyw aelod o staff nad yw'n cydymffurfio â'r safon hon.</p>                                   | <p>Prif Nyrs y Ward</p>                              | <p>wythnos yn dechrau ar 11 Awst 2014</p> |
|  | <p>Dylid esbonio'r drefn newydd o ran rheoli egwyl y staff yn glir ac arddangos hynny'n glir ar y bwrdd dyraniad staff.</p>   | <p>Prif Nyrs y Ward</p>                              | <p>wythnos yn dechrau ar 11 Awst 2014</p> |
|  | <p>Bydd archwiliadau rheolaidd i wirio cydymffurfedd â'r uchod yn cael eu cynnal yn wythnosol i ddechrau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r camau gweithredu hyn.</p>   | <p>Uwch Nyrs</p>                                     | <p>wythnos yn dechrau ar 11 Awst 2014</p> |
| <p>Gwelsom ddibyniaeth gref ar weithwyr cymorth gofal iechyd i gynnal arsylwadau a sgorio diogelwch; er enghraifft, Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS). Canfuwyd y gallai fod yn fater o oriau cyn i'r nyrsys hyfforddedig adolygu'r arsylwadau i ddiwygio gofal fel bo'r angen.</p> | <p>Dylid atgoffa'r nyrsys cofrestredig drwy lythyr am eu cyfrifoldebau proffesiynol o dan god ymddygiad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth sy'n nodi eu bod yn gyfrifol am unrhyw dasgau sy'n cael eu dirprwyo i berson arall.</p> | <p>Bwrdd clinigol/Nyrsys Arwain/<br/>Uwch-nyrsys</p> | <p>wythnos yn dechrau ar 11 Awst 2014</p> |
|  | <p>Dylid atgoffa'r nyrsys cofrestredig drwy lythyr fod ganddynt gyfrifoldeb i adolygu siartiau arsylwadau yn rheolaidd ac i sicrhau eu bod yn cofnodi eu hadolygiad o'r cofnodion.</p>  | <p>Bwrdd clinigol/Nyrsys Arwain/<br/>Uwch-nyrsys</p> | <p>wythnos yn dechrau ar 11 Awst 2014</p> |
|  | <p>Dylid atgoffa'r nyrsys cofrestredig drwy lythyr fod ganddynt gyfrifoldeb i adolygu'r holl ddogfennau nyrsio ac i lofnodi i ddangos ei fod wedi derbyn sylw.</p>  | <p>Bwrdd clinigol/Nyrsys Arwain/</p>                 | <p>wythnos yn dechrau ar 11 Awst 2014</p> |

| Canfyddiadau AGIC   | Ymateb y Bwrdd Iechyd   | Swyddog Cyfrifol                         | Amserlen                           |
|---|---|--|------------------------------------|
|   |   | Uwch-nyrsys                              |                                    |
|   | Cyflwyno rowndiau bwriadol er mwyn i'r nyrs cofrestredig gynnal adolygiad rheolaidd wedi'i drefnu o'r holl gleifion.- Bydd hyn yn arwain at weithredu prydlon ac uwchgyfeirio lle nodir hynny o fewn paramedrau unigoledig ac yn sicrhau uwchgyfeirio priodol lle bo'r angen. | Prif Nyrs y Ward                         | wythnos yn dechrau ar 11 Awst 2014 |
|   | Hyfforddiant ychwanegol i Weithiwr Cymorth Gofal Iechyd mewn perthynas â dogfennaeth ac addasu statws cleifion.   | Nyrs Datblygu Ymarfer                    | wythnos yn dechrau ar 25 Awst 2014 |
|   | Bydd archwiliadau rheolaidd i wirio cydymffurfedd â'r uchod yn cael eu cynnal yn wythnosol i ddechrau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r camau gweithredu hyn.  | Uwch Nyrs                                | wythnos yn dechrau ar 11 Awst 2014 |
| Gwnaethom arsylwi ar un digwyddiad lle'r oedd adolygwyr cymheiriaid wedi sylwi bod un o'r cleifion yn gwaethygu, ac nid oedd y nyrsys cofrestredig wedi sylwi bod asesu'r claf ar fyrder eu hunain, nac wedi gweithredu ar/gofyn am farn meddygol, nac ychwaith wedi darparu gofal mwy dwys i'r claf. | Dylid atgoffa nyrsys cofrestredig, a hynny drwy lythyr, i'w hatgoffa i ddefnyddio'r ddogfen SBARD sydd ar gael ar hyn o bryd ar y ward wrth uwchgyfeirio cleifion sy'n destun pryder.   | Bwrdd Clinigol/Nyrsys Arwain/Uwch-nyrsys | wythnos yn dechrau ar 11 Awst 2014 |
|   | Hyfforddiant ychwanegol i Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd mewn perthynas â dogfennaeth a newid statws cleifion  | Nyrs Datblygu Ymarfer                    | wythnos yn dechrau ar 25 Awst 2014 |

| Canfyddiadau AGIC  | Ymateb y Bwrdd Iechyd   | Swyddog Cyfrifol                             | Amserlen                           |
|--|---|--|------------------------------------|
| Gwnaethom drosglwyddo ein pryderon ynglŷn â'r claf i brif nyrs y ward.   | Dylid atgoffa staff meddygol o'r pwysigrwydd o nodi yn y cofnod meddygol pan ofynnwyd iddynt adolygu claf (yn hytrach na'i fod yn rhan o adolygiad rheolaidd y claf).   | Ymgynghorydd Orthogeriatregydd               | wythnos yn dechrau ar 11 Awst 2014 |
| Diwylliant:<br>Gwnaethom adnabod yr angen ar gyfer mwy o gefnogaeth ac arweinyddiaeth glir ar y ward ac yn y tîm o ran arweinyddiaeth nyrsio a meddygol.                       | Ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r opsiwn bod nyrsys y ward yn cael eu goruchwylio gan staff y Prif Swyddog Nyrsio gan ganiatáu goruchwyliaeth mwy dwys, cefnogaeth a goruchwyliaeth o'r tîm a'r gwaith.          | Bwrdd clinigol/Nyrsys Arwain/<br>Uwch-nyrsys | wythnos yn dechrau ar 8 Medi 2014  |
|  | Yr Uwch Nyrs i ymgymryd â sifftiau cymorth clinigol ar y ward a chwblhau archwiliad dyddiol ar hap yn seiliedig ar yr Hanfodion Gofal.  | Uwch Nyrs                                    | wythnos yn dechrau ar 8 Medi 2014  |
| Mae angen i ward y tîm gael dulliau cyfathrebu mwy agored ac unedig rhwng gweithwyr cymorth gofal iechyd a nyrsys cofrestredig a rhwng nyrsys, staff meddygol a staff therapi. | Proses archwiliadwy i gofnodi briffio diogelwch yng nghwmni nyrsys cofrestredig a nyrsys heb eu rhestru.  | Uwch Nyrs                                    | wythnos yn dechrau ar 18 Awst 2014 |
|  | Proses archwiliadwy o ran trosglwyddo staff ar wardiau ar waith sy'n cofnodi'r penderfyniadau a wneir gan y Tîm amlddisgyblaethol, y camau gweithredu angenrheidiol a bod y camau gweithredu wedi'u cyflawni. | Prif Nyrs y Ward                             | wythnos yn dechrau ar 18 Awst 2014 |
| Cafodd y mater uchod ei greu gan ddiffyg cynlluniau gofal clir ar gyfer pob claf unigol.   | Ailadrodd archwiliad o nodiadau'r cleifion ymhen tri mis i wirio bod cleifion yn cael eu harolygu gan staff meddygol yn rheolaidd a bod ganddynt gynllun gofal clir.  | Nyrs Arwain/<br>Uwch Nyrs/<br>Ymgynghorydd   | Tachwedd 2014                      |



| Canfyddiadau AGIC  | Ymateb y Bwrdd Iechyd  | Swyddog Cyfrifol                                     | Amserlen                           |
|--|--|--|------------------------------------|
|  |  | Ortho-geriatregydd                                   |                                    |
|  | Proses archwiliadwy ar gyfer trosglwyddo staff ar wardiau ar waith.  | Prif Nyrs y Ward                                     | wythnos yn dechrau ar 18 Awst 2014 |
| Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol   |  |  |                                    |
| Gwnaethom arsylwi nad y cleifion oedd canolbwynt y sylw. Mae hyn oherwydd bod y ward yn anhrefnus ac roedd diffyg trefn o ran y staff. Cafodd hyn ei achosi gan gyfathrebu aneffeithiol rhwng staff nyrsio, staff meddygol a staff therapi.  | Ailadrodd archwilio cofnodion y cleifion ymhen tri mis i wirio bod cleifion yn cael eu hadolygu gan staff meddygol yn rheolaidd a bod ganddynt gynllun gofal clir. | Nyrs Arwain/Uwch Nyrs/ Ymgynghorydd Orthogeriatregwr | Tachwedd 2014                      |
| Roedd sgoriau diogelwch cleifion ar ffurf Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol wedi'u cofnodi'n anghyson rhwng dogfennau cleifion a'r wybodaeth cleifion ar fyrddau bach. Nid oedd gan y nyrsys cofrestredig ymwybyddiaeth lawn o statws NEWS pob claf ar flaen eu bysedd, ac mae'n bosibl nad oeddent yn ymwybodol o newidiadau i'r sgôr NEWS. | Adolygu gwybodaeth a nodir ar fyrddau'r Cleifion.  | Prif Nyrs y Ward                                     | wythnos yn dechrau ar 18 Awst 2014 |

| Canfyddiadau AGIC  | Ymateb y Bwrdd Iechyd   | Swyddog Cyfrifol                  | Amserlen                               |
|--|---|-----------------------------------|--|
|  |   |                                   |  |
| <p>Canfu ein hadolygiad o ddogfennau cleifion nad oedd nifer o ffurflenni Na Cheisier Dadebru (DNAR) wedi'u cwblhau'n llawn, nac wedi'u hadolygu unwaith yr oedd cyflwr claf wedi newid.</p> | <p>Y ffurflenni wedi'u harchwilio'n fewnol a'r canlyniadau'n cael eu rhaedru i'r holl staff meddygol.</p>                                   | <p>Uwch Nyrs/<br/>Nyrs Arwain</p> | <p>Cwblhawyd ar 24 Gorffennaf 2014</p> |
|  | <p>Yn dilyn yr archwiliad uchod, cafodd yr holl ffurflenni DNAR eu hadolygu a'u diweddarau gan Ymgynghorydd Orthogeriatregydd.</p>          | <p>Staff Meddygol</p>             | <p>Cwblhawyd ar 25 Gorffennaf 2014</p> |
|  | <p>Dylid rhoi sylw ychwanegol i gwblhau'r ffurflen DNAR a chynnal adolygiadau rheolaidd yn ystod cyfnod ymsefydlu'r Staff meddygol Iau.</p> | <p>Staff Meddygol</p>             | <p>wythnos yn dechrau 4 Awst 2014</p>  |
|  | <p>Ail archwiliad ar ôl cwblhau ac ymgymryd ag adolygiad yn ystod y 3 mis.</p>  | <p>Uwch Nyrs/<br/>Nyrs Arwain</p> | <p>Cwblhawyd ym mis Tachwedd 2014</p>  |

| Canfyddiadau AGIC  | Ymateb y Bwrdd Iechyd   | Swyddog Cyfrifol  | Amserlen  |
|--|---|---|---|
| <p>Prin oedd y dystiolaeth a welsom o ran cofnodi asesiadau Deddf Galluedd Meddyliol yn effeithiol yng nghofnodion y cleifion.</p>                       | <p>Yr holl ffurflenni wedi'u harchwilio'n fewnol a'r canlyniadau'n cael eu rhaedru i'r holl staff meddygol.</p> <p>Yn dilyn yr archwiliad uchod, adolygwyd holl gofnodion meddygol y cleifion ar gyfer tystiolaeth o asesiadau'r Ddeddf Galluedd Meddyliol. Rhoddwyd canlyniadau'r archwiliadau i'r Ymgynghorydd Orthogeriatregwr ac o ganlyniad cawsant eu diweddarau gan yr Ymgynghorydd Orthogeriatregwr lle bo'n briodol.</p> | <p>Uwch Nyrs/<br/>Nyrs Arwain</p> <p>Staff Meddygol</p> | <p>Cwblhawyd ar 24 Gorffennaf 2014</p> <p>Cwblhawyd ar 25 Gorffennaf 2014</p> |
|  | <p>Dylid rhoi sylw ychwanegol i gwblhau Aseiad Galluedd Meddyliol a chynnal adolygiadau rheolaidd yn ystod cyfnod ymsefydlu'r Staff meddygol Iau.</p>   | <p>Staff Meddygol</p>                                   | <p>wythnos yn dechrau 4 Awst 2014</p>   |
|  | <p>Ail archwiliad ar ôl cwblhau ac ymgymryd ag adolygiad yn ystod y 3 mis.</p>  | <p>Uwch Nyrs/<br/>Nyrs Arwain</p>                       | <p>Cwblhawyd ym mis Tachwedd 2014</p>   |
| <p>Roedd gwybodaeth y cleifion ar y byrddau bach yn cynnwys gwybodaeth am gleifion (fel sgôr NEWS a chleifion oedd â diabetes) nad oedd yn gyfredol.</p> | <p>Adolygu gwybodaeth NEWS a nodir ar fyrddau'r Cleifion.</p>   | <p>Prif Nyrs y Ward</p>                                 | <p>8 Medi 2014</p>  |
|  | <p>Cryfhau'r broses o gofnodi manylion y cleifion sydd â diabetes er mwyn cyfathrebu hynny'n fwy effeithiol i'r tîm.</p>  | <p>Prif Nyrs y Ward</p>                                 | <p>11 Awst 2014</p>   |

| Canfyddiadau AGIC  | Ymateb y Bwrdd Iechyd   | Swyddog Cyfrifol                  | Amserlen            |
|--|---|-----------------------------------|---------------------|
| <p>Roedd gan rai o'r nyrsys y bŵm yn sgwrsio â nhw wybodaeth anghyson am y cleifion ar y ward.</p> <p>Tynnwyd sylw at y ddau fater uchod drwy'r wybodaeth oedd ar fwrdd y cleifion a oedd yn nodi nad oedd gan unrhyw un o'r cleifion ddiabetes, a'n sgysiau unigol â thair nyrs gofrestrdig a wnaeth esbonio nad oedd cleifion â diabetes ar y ward. Fodd bynnag, wrth inni adolygu dogfennaeth cleifion daeth i'r amlwg bod claf diabetig ar y ward.</p> | <p>Atgoffwyd yr holl nyrsys cofrestredig fod ganddynt gyfrifoldeb i sicrhau eu bod wedi cael arfarniad llawn ar y cleifion maen nhw'n gofalu amdanynt er enghraifft eu statws diabetig.</p>                           | <p>Prif Nyrs y Ward</p>           | <p>4 Awst 2014</p>  |
| <p>Amgylchedd y Ward:</p> <p>Gwelsom fod y drws ardal y gegin a oedd yn cynnwys ffyrnau masnachol ar agor yn barhaus yn ystod yr arolygiad. Gwelsom hefyd fod y drws i'r ystafell wastraff a oedd yn cynnwys clo, heb ei gloi.</p> <p>Ni welsom unrhyw systemau ar waith i leihau'r risgiau amgylcheddol hyn i'r cleifion.</p>   | <p>Trafodwyd protocolau cegin y ward â'r Rheolwr Arlwyo a chymerwyd asesiad risg pellach a champau gweithredu priodol i leihau risg posibl i gleifion a fyddai'n crwydro.</p>   | <p>Rheolwr Arlwyo</p>             | <p>4 Awst 2014</p>  |
|  | <p>Trafodwyd y broblem ynghylch drysau'r ystafelloedd gwastraff â'r tîm cyfleusterau, ac atgoffwyd y staff cyfleusterau bod angen i'r drysau gael eu cadw ar glo drwy'r amser pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.</p> | <p>Rheolwr Cyfleusterau</p>       | <p>4 Awst 2014</p>  |
|  | <p>Adborth i dîm corfforaethol Iechyd a Diogelwch ynglŷn â Materion Iechyd a Diogelwch posibl.</p>  | <p>Nyrs Arwain/<br/>Uwch Nyrs</p> | <p>11 Awst 2014</p> |
|  | <p>Ymgymryd ag asesiadau risg ffurfiol a'u hychwanegu at gofrestr risg y Ward/ y Gyfarwyddiaeth.</p>  | <p>Prif Nyrs y Ward</p>           | <p>11 Awst 2014</p> |
| <p>Ail-archwilio cydymffurfedd.</p>  | <p>Nyrs Arwain /</p>  | <p>Tachwedd 2014</p>              |                     |

## Atodiad B

Urddas a Gofal Hanfodol: Cynllun Gwella

Ysbyty: Ysbyty Athrofaol Cymru

Ward/ Adran: B6 Trawma ac Orthopedeg

Dyddiad yr Arolygiad: 22 a 23 Gorffennaf 2014

| Rhif y Dudalen                        | Canfyddiad   | Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd  | Swyddog Cyfrifol                                | Amserlen               |
|---------------------------------------|--|--|---|------------------------|
| <b>Ansawdd Profiad y Claf</b>         |  |  |   |                        |
| 8                                     | Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau cydymffurfriad ag egwyddor 5 Cod Gwisg Cymru Gyfan GIG, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob aelod o staff wisgo manylion adnabod sy'n gwbl amlwg bob amser. | Prif nyrs y ward i sicrhau bod cod gwisg Cymru Gyfan GIG yn cael ei drafod fel rhan o'r briffio dyddiol a gynhelir ar y ward ddwywaith y dydd.<br><br>Uwch Nyrs/ Nyrs Arwain i ymgymryd ag archwiliadau ar hap | Prif nyrs y ward<br><br>Uwch Nyrs/<br>Prif Nyrs | Cwblhawyd<br><br>Misol |
| <b>Darpariaeth yr Hanfodion Gofal</b> |  |  |   |                        |

Gwnaethom nifer o ganfyddiadau yn gysylltiedig â chyflenwi hanfodion gofal a gwnaethom ofyn am sicrwydd ar unwaith amdanynt gan y bwrdd iechyd. Mae'r bwrdd iechyd wedi darparu ymateb boddhaol i AGIC yn rhoi manylion eu camau gweithredu, a gellir eu canfod yn Atodiad A.

| Rhif y Dudalen | Canfyddiad   | Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd   | Swyddog Cyfrifol                  | Amserlen                         |
|----------------|--|---|-----------------------------------|----------------------------------|
| 10             | Cynghorir y bwrdd iechyd i adolygu faint o gymhorthion cyfathrebu addas sydd ar y ward.  | Prif nyrs y ward i sicrhau bod holl arwyddion y ward yn ddwyieithog<br><br>Bydd yr Uwch Nyrs yn trefnu bod system glyw dolen yn cael ei phrynu i'w defnyddio ledled y Gyfarwyddiaeth  | Prif nyrs y ward<br><br>Uwch Nyrs | Rhagfyr 2014<br><br>Rhagfyr 2014 |
| 10             | Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau bod gwybodaeth a ddarperir i gleifion ar y ward yn gywir.   | Prif nyrs y ward i sicrhau bod yr holl glochau a'r arwyddion sydd wedi'u lleoli ar y ward yn arddangos y dyddiad, y diwrnod a'r amser cywir.  | Prif nyrs y ward                  | Cwblhawyd                        |
| 11             | Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau y cyfathrebir â chleifion mewn ffordd sydd yn eu galluogi i dderbyn ac i ymateb i'r wybodaeth a roddir. | Prif nyrs y ward i sicrhau bod y tîm nyrsio yn adnabod anghenion cyfathrebu yn brydlon ac i sicrhau y defnyddir y dull mwyaf priodol o gyfathrebu.  | Prif nyrs y ward                  | Cwblhawyd                        |
| 11             | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn derbyn gwybodaeth lawn am eu gofal mewn iaith a modd sy'n sensitif i'w hanghenion.          | Dylid rhannu gwybodaeth â thîm y ward ynglŷn â sut i gael mynediad at linell iaith; bydd y wybodaeth hon yn cael ei lamineiddio a'i hychwanegu at fwrdd gwaith cyfrifiadur y ward. Yn ogystal â hyn, bydd gwybodaeth ynglŷn â sut i gysylltu â chwmnïau iaith arwyddion ar gael yn y dull hwn hefyd. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno ledled y Gyfarwyddiaeth | Prif nyrs y ward                  | Cwblhawyd                        |
| 12             | Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau bod cyfrinachedd cleifion yn cael ei barchu cymaint   | Dylid atgyfnerthu pwysigrwydd cyfrinachedd a phreifatrwydd i'r staff nyrsio   | Prif nyrs y ward                  | Cwblhawyd                        |

| Rhif y Dudalen | Canfyddiad  | Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd  | Swyddog Cyfrifol      | Amserlen      |
|----------------|---|--|-----------------------|---------------|
|                | â phosibl, yn enwedig ar wardiau ysbyty, mannau cyhoeddus a derbynfeydd.  |  |                       |               |
| 12             | Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau bod yn rhaid diogelu urddas a phreifatrwydd cleifion bob amser.  | Prif nyrs y ward i sicrhau bod yr arwyddion dwyieithog 'peidiwch â tharfu' ar gael i'w defnyddio yn holl fannau'r gwelyau a bod y llenni yn cael eu cadw ar gau yn ystod adegau pan fod angen preifatrwydd ac urddas.  | Prif nyrs y ward      | Tachwedd 2014 |
| 12             | Cynghorir y bwrdd iechyd i ystyried defnyddio ystafell ddydd gyfredol y cleifion a bod yr ystafell yn amgylchedd addas i gleifion.  | Ers yr ymweliad mae'r ystafell ddydd wedi cael ei hadnewyddu a'i dodrefnu gyda chelfi newydd, teledu, system gerddoriaeth a llyfrau i annog cleifion a'u teuluoedd i ddefnyddio'r cyfleuster hwn. Bydd trefniadau ar waith i sicrhau bod y cwmni'n gwaredu â'r llungopiwr a'i roi mewn rhywle mwy addas. | Prif nyrs y ward      | Rhagfyr 2014  |
| 14             | Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau bod yna stoc ddigonol o ddillad gwely a gobenyddion drwy'r amser i fodloni anghenion cleifion.   | Bydd prif nyrs y ward yn cynnal archwiliad ar hap i wirio stoc y gobenyddion a'r dillad gwely ac yn trefnu bod stoc ychwanegol yn cael ei harchebu.  | Prif nyrs y ward      | Cwblhawyd     |
| 15             | Hysbysir y bwrdd iechyd am yr angen i sicrhau bod lefel anghysur, poen neu drallod cleifion yn cael ei hasesu a'i chofnodi'n rheolaidd. Gellir cofnodi canlyniadau penderfyniadau wedyn ar gyfer parhad gofal y claf. | Ers yr ymweliad, ymgwymerwyd ag addysg a hyfforddiant mewn perthynas â dogfennaeth yn enwedig wrth werthuso gofal cleifion ac ymateb i'r canfyddiadau. Defnyddiwyd gwerthuso poen fel enghraifft. Bydd effaith yr hyfforddiant hwn yn cael ei fonitro fel rhan o archwiliadau ar hap                     | Nyrs Arwain/uwch nyrs | Rhagfyr 2014  |

| Rhif y Dudalen | Canfyddiad  | Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd  | Swyddog Cyfrifol      | Amserlen     |
|----------------|---|--|-----------------------|--------------|
|                |   | yr uwch nyrs/nyrs arwain   |                       |              |
| 16             | Cynghorir y bwrdd iechyd i ddangos bod dogfennau wedi'u cwblhau'n gyflawn a'u hadolygu yn unol â Llwybr Gofal Maethol Cymru Gyfan.  | Ar hyn o bryd mae hanfodion grŵp gofal Bwrdd Iechyd y Brifysgol yn ymgymryd â phrosiect sy'n archwilio i gwblhau siartiau cydbwysedd hylif yn drwyadl gyda'r bwriad o ddatblygu egwyddorion safonol i'w defnyddio ledled Bwrdd Iechyd y Brifysgol. Bydd elfen addysgol a hyfforddiant i ategu'r prosiect hwn. Cynrychiolir Trawma ac Orthopedeg yn y grŵp hwn. | Nyrs datblygu ymarfer | Yn parhau    |
| 18             | Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau bod cleifion yn cael cynnig y cyfle i naill ai olchi eu dwylo neu ddefnyddio clytiau i'r dwylo cyn bwyta'u prydau yn unol â'u dymuniadau ac yn unol â'r Hanfodion Gofal. | Prif nyrs y ward i gysylltu â'r staff Deietig i ofyn am eu cymorth wrth sicrhau bod y cleifion wedi cael cyfle i olchi eu dwylo cyn rhoi cymorth iddynt gyda'u pryd bwyd. Bydd hyn hefyd cael ei atgyfnerthu ymhlith y staff nyrsio. Mae'r Gyfarwyddiaeth hefyd yn ymchwilio i'r opsiwn o groesawu gwirfoddolwyr i roi cefnogaeth yn ystod prydau bwyd.        | Prif nyrs y ward      | Cwblhawyd    |
| 19             | Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau bod yr holl ofal a roddir yn cael ei gofnodi yng nghofnodion y claf.   | Mae'r addysg a'r hyfforddiant a ddarparwyd yn pwysleisio pwysigrwydd cadw cofnodion cywir. Mae dogfennaeth hefyd yn cael ei gynnwys yn yr archwiliadau ar hap a wneir gan y nyrs arwain a'r Uwch nyrs.   | Nyrs Arwain/uwch nyrs | Rhagfyr 2014 |
| 19             | Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau nad oes llanast a chyfarpar diangen yn y cyfleusterau toiled na'r ystafelloedd ymolchi.  | Mae'r annibendod a welwyd yn ystod yr ymweliad yn cyfeirio at eitemau a oedd wedi torri ac a gondemniwyd, ac a gafodd eu   | Nyrs Arwain/uwch nyrs | Cwblhawyd    |



| Rhif y Dudalen  | Canfyddiad  | Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd   | Swyddog Cyfrifol      | Amserlen      |
|---|---|---|-----------------------|---------------|
|   |   | hysbysu i ystadau er mwyn iddynt eu casglu ar ôl yr ymweliad. Mae'r mater hwn yn parhau oherwydd bod prinder staff yn yr adran hon. Uwch Nyrs/ Nyrs Arwain i'w drosglwyddo i lefel uwch   |                       |               |
| 20  | Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau bod Bwndel Ymataliaeth Cymru Gyfan yn cael ei ddefnyddio'n gyson | Datblygwyd pecyn addysg ac ar hyn o bryd mae Bwndel Ymataliaeth Cymru Gyfan yn cael ei gyflwyno ar B6. Bydd yr addysg hon yn ymwneud ag asesu cleifion a defnyddio nwyddau ymataliaeth yn briodol.                                    | Nyrs datblygu ymarfer | Cwblhawyd     |
| 20  | Cynghorir y bwrdd iechyd i ddangos bod urddas cleifion yn cael ei gynnal bob amser.                 | Prif nyrs y ward i sicrhau bod arwyddion 'Peidiwch â tharfu' ar waith er mwyn eu defnyddio o amgylch mannau'r gwely i sicrhau bod y llenni yn cael eu cadw ar gau yn ystod yr amseroedd pan fod angen sicrhau preifatrwydd ac urddas. | Prif nyrs y ward      | Tachwedd 2014 |
| <b>Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>   |   |   |                       |               |
| Gwnaethom nifer o ganfyddiadau mewn perthynas ag ansawdd staffio, rheolaeth ac arweinyddiaeth, a gofynnem am sicrwydd ar unwaith amdanynt oddi wrth y bwrdd iechyd. Mae'r bwrdd iechyd wedi darparu ymateb boddhaol i AGIC sy'n rhoi manylion eu camau gweithredu, a gellir ei ganfod yn Atodiad A. |   |   |                       |               |
| <b>Darparu Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol</b>  |   |   |                       |               |
| Gwnaethom nifer o ganfyddiadau mewn perthynas â chyflenwi gwasanaeth diogel ac effeithiol a gwnaethom ofyn am sicrwydd ar unwaith amdanynt oddi wrth y bwrdd iechyd. Mae'r bwrdd iechyd wedi darparu ymateb boddhaol i AGIC sy'n rhoi manylion eu camau   |   |   |                       |               |

| Rhif y Dudalen                               | Canfyddiad   | Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd   | Swyddog Cyfrifol                              | Amserlen                      |
|--|--|---|---|-------------------------------|
| gweithredu, a gellir ei ganfod yn Atodiad A. |  |   |   |                               |
| 28   | Cynghorir y bwrdd iechyd i adolygu'r arfer o storio stoc a chyfarpar yn uchel ac wedi'u pentyrru ar silffoedd mewn ystafelloedd storio, er mwyn sicrhau nad oes yna risg i staff | Ers hynny rhoddwyd trefn ar yr ystafell storio. Mae gofod storio'r ward wedi'i gyfyngu, fodd bynnag mae staff y ward wedi trefnu'r dull storio fel bod yr eitemau a ddefnyddir lleiaf aml yn cael eu storio ar silffoedd uchaf y cwpwrdd.               | Prif nyrs y ward                              | Cwblhawyd                     |
| 28   | Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau bod asesiadau ar gyfer y defnydd o gymhorthion codi a chario yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion                                    | Mae'r addysg a'r hyfforddiant a ddarparwyd yn pwysleisio pwysigrwydd cadw cofnodion cywir. Yn ystod yr archwiliadau ar hap mae'r nyrs arwain a'r Uwch Nyrs hefyd yn sicrhau bod dogfennaeth ac asesiadau risg wedi'u cwblhau.                           | Nyrs Arwain/uwch nyrs                         | Rhagfyr 2014                  |
| 29   | Cynghorir y bwrdd iechyd i sicrhau bod cysondeb wrth ystyried canllawiau Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan  | Defnyddir tâp gwyrdd ar yr holl gadeiriau comôd ar ôl iddynt gael eu glanhau. Bydd hyn yn cael ei wirio yn ystod yr archwiliadau ar hap a wneir gan y Nyrs arwain a'r uwch nyrs.  | Nyrs Arwain/uwch nyrs                         | Rhagfyr 2014                  |
| 29   | Cynghorir y bwrdd iechyd i ddangos bod yna systemau ar waith ar gyfer sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel.  | Prif nyrs y ward i atgyfnerthu pwysigrwydd sicrhau bod drws yr ystafell driniaeth yn cael ei gadw ar glo drwy gydol yr amser. Nyrs Arwain/Uwch nyrs i gynnal archwiliadau ar hap gan ddefnyddio dull Archwilio'r modd o Drin Meddyginiaethau'n Ddiogel. | Prif nyrs y ward<br><br>Nyrs Arwain/uwch nyrs | Cwblhawyd<br><br>Rhagfyr 2014 |

| Rhif y Dudalen | Canfyddiad  | Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd  | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|----------------|---|--|------------------|----------|
| 30             | Cynghorir y bwrdd Iechyd i atgoffa staff i sicrhau bod gan gleifion glychau galw o fewn eu cyrraedd bob amser er mwyn rhybuddio staff os bydd angen cymorth arnynt. | Cyflwynwyd cylchdeithiau bwriadol ar y ward ers yr ymweliad diwethaf Uwch Nyrs/ Nyrs Arwain i ymgymryd ag archwiliadau ar hap ynglŷn â'r amser a gymerir i ateb y clychau galw. Yn ddiweddar cynhaliwyd arolwg cleifion ynglŷn ag anghenion tolied a chafodd y maes hwn ymateb cadarnhaol. Nodwyd yr ymateb cadarnhaol hwn hefyd yn ddiweddar yn sgil arsylwi'r gofal a ymgwymerwyd gan fyfyrwyr meddygol. |                  |          |

### Cynrychiolydd Bwrdd Iechyd:

Enw (printiwch):.....

Teitl: .....

Llofnod:.....

Dyddiad: .....

